



UK Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Department of
Agriculture, Environment
and Rural Affairs

An Roinn

Talmhaíochta, Comhshaoil
agus Gnóthaí Tuaithe

Department of

Fairmin, Environment
an' Kintra Matthers

www.daera-ni.gov.uk

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Ymgynghoriad ar Ddadleoli Carbon

Ymgynghoriad ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban,
Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion
Gwledig Gogledd Iwerddon

Dyddiad cau: 10 Mawrth 2025

Rhagfyr 2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth y mae ei hawlfraint yn eiddo i drydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn: ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

Cynnwys

Gwybodaeth gyffredinol _____	5
Pam yr ydym yn ymgynghori _____	5
Manylion yr ymgynghoriad _____	5
Sut i ymateb _____	7
Cyfrinachedd a diogelu data _____	7
Sicrhau ansawdd _____	7
Cyflwyniad _____	9
Cefndir _____	9
Yr ymgynghoriad hwn _____	10
Diben yr ymgynghoriad hwn _____	10
Y cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghori hon _____	10
Pennod 1: Dangosyddion Dadleoli Carbon _____	13
Cefndir _____	13
Crynodeb o gynigion ymgynghori'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim _____	14
Methodoleg _____	14
Defnyddio data _____	14
Dull gweithredu o ran sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon _____	14
Crynodeb o'r ymatebion _____	15
Diweddaru Dangosyddion Dadleoli Carbon y DU _____	16
Y metrigau a ddefnyddir i gyfrifo'r Dangosydd Dadleoli Carbon _____	17
Ffynonellau data _____	18
Ffynonellau data i gyfrifo dwysedd masnachu _____	18
Ffynonellau data i gyfrifo dwysedd allyriadau _____	20
Ystyriaethau pellach o ran y fformiwla _____	21
Cyfrifo dwysedd masnachu _____	21
Cyfrifo dwysedd allyriadau _____	22
Methodoleg gwerthoedd trothwy'r Dangosydd Dadleoli Carbon _____	22
Y Rhestr Dadleoli Carbon _____	25
Pennod 2: Dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM _____	32
Cefndir _____	32
Y cynigion a geir yn y bennod hon _____	33
Crynodeb o gynigion ymgynghori'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim _____	33
Crynodeb o'r ymatebion _____	34
Addasu dyraniadau am ddim sectorau CBAM _____	35

Paramedrau'r addasiad _____	36
Hyd a lled yr addasiad _____	39
Rhoi'r addasiad ar waith yn dechnegol _____	41
Meini prawf asesu _____	42
Ymdrin â dyraniadau am ddim a addaswyd _____	44
Y cwestiynau ymgynghori _____	45
Y camau nesaf _____	46

Gwybodaeth gyffredinol

Pam yr ydym yn ymgynghori

Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) (Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, 'yr Awdurdod' o hyn ymlaen) yn gofyn am sylwadau ar nifer o gynigion i wella ein dull gweithredu o ran dyraniadau am ddim; yn benodol, ein dull o gyfrifo'r Dangosydd Dadleoli Carbon ac o bennu'r Rhestr Dadleoli Carbon, a'r dull o addasu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau a gwmpesir gan y mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM).

Rydym wedi ymrwmo i dargedu dyraniadau am ddim yn well at y sectorau hynny sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon cyn y cyfnod dyrannu nesaf, ac i deilwra hyn i gyd-destun y DU. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi mai yn 2027 y bydd y cyfnod dyrannu nesaf bellach yn dechrau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar ein cynigion i wneud unrhyw newidiadau y bernir eu bod yn briodol i'r fethodoleg dyraniadau am ddim cyn y cyfnod dyrannu nesaf. 10

Manylion yr ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2024

Ymatebion erbyn: 10 Mawrth 2025

Ymholiadau:

Emissions Trading
Department for Energy Security and Net Zero
3rd Floor
3-8 Whitehall Place
London
SW1A 2EG

E-bost: ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim ETS y DU

Cynulleidfaoedd:

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i gwmnïau unigol yn y sectorau diwydiannol a phŵer sy'n ysgwyddo rhwymedigaethau o dan ETS y DU, i gynrychiolwyr y sectorau hynny, ac i grwpiau amgylcheddol. Nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r rhanddeiliaid hyn; mae croeso i unrhyw sefydliad neu unigolyn ymateb. (Sylwch nad yw'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr trydan yng Ngogledd Iwerddon sy'n cymryd rhan yn ETS yr UE yn rhinwedd Fframwaith Windsor.)

Cwmpas daeryddol:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion i ddatblygu ETS y DU sy'n gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Sut i ymateb

Ar-lein yn: <https://energygovuk.citizenspace.com/energy-markets/ukets-far-carbon-leakage>
neu

Drwy anfon e-bost at: ukets.consultationresponses@energysecurity.gov.uk

Drwy ysgrifennu at:

Emissions Trading

Department for Energy Security and Net Zero

3rd Floor

3-8 Whitehall Place

London

SW1A 2EG

Pan fyddwch yn ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad.

Bydd eich ymateb yn ddefnyddiol iawn os byddwch yn ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, ond mae croeso ichi wneud sylwadau eraill a darparu tystiolaeth arall hefyd.

Cyfrinachedd a diogelu data

Gallai'r wybodaeth a ddarperir gennych pan fyddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu ar draws yr Awdurdod.

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, rhowch wybod inni, ond sylwch na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais i drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl ddeddfau diogelu data perthnasol. Darllenwch ein [polisi preifatrwydd](#).

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar [GOV.UK](https://www.gov.uk). Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau'r sefydliadau sydd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau nac unrhyw fanylion cyswllt eraill.

Sicrhau ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth](#).

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon


Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at bru@energysecurity.gov.uk.

Cyflwyniad

Cefndir

Ar hyn o bryd, dyrannu lwfansau Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) am ddim yw'r prif offeryn polisi a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon yn y DU. Drwy i lwfansau ETS y DU gael eu darparu am ddim, nid oes raid i weithredwyr brynu cynifer o lwfansau mewn perthynas â'u hallyriadau, ac mae hyn, i bob pwrpas, yn lleihau'r pris carbon y maent yn ei dalu ac yn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon. Mae'r cymhelliad i ddatgarboneiddio yn parhau oherwydd, yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n cael dyraniadau am ddim ac yn datgarboneiddio yn cadw unrhyw ddyraniadau am ddim dros ben.¹ Gallant werthu'r rhain ar y farchnad eilaidd er eu budd hwy.

Cyfrifir dyraniadau am ddim gan ddefnyddio'r hafaliad a ganlyn²:



Ffigur 1: Sut y caiff dyraniadau am ddim eu cyfrifo

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu dyraniadau am ddim i weithfeydd sefydlog o dan ETS y DU ar hyn o bryd yn blaenoriaethu dilyniant i weithredwyr, a chafodd y fethodoleg ei throsglwyddo i raddau helaeth o Gam IV ETS yr UE. Lansiodd yr Awdurdod adolygiad o'r polisi dyraniadau am ddim yn 2021 drwy gyhoeddi galwad am dystiolaeth³, gyda'r nod o sicrhau bod y polisi dyraniadau am ddim yn gweithio'n effeithiol yng nghyd-destun y DU i gymhell gweithredwyr i

¹ Mae'r broses hon yn gweithio'n wahanol ar gyfer sectorau sy'n symud at feincnod newydd.

² Mae'r Rhestr Dadleoli Carbon wedi'i chynnwys yn EUR 2019/708

<https://www.legislation.gov.uk/eudn/2019/708/contents>. Nodir y meincnodau yn Atodiad 8 o EUR 2019/331

<https://www.legislation.gov.uk/eur/2019/331/contents>

³ <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60507ae48fa8f505bfdac4d6/uk-ets-call-for-evidence.pdf>

leihau allyriadau ac i ddiogelu diwydiannau ynni-ddwys sy'n agored i gystadleuaeth rhag y risg o ddadleoli carbon. Rydym wedi cynnal yr adolygiad hwn fesul cam:

- Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar gyfran y dyraniadau am ddim o dan y cap sydd ar gael i'w rhoi am ddim⁴.
- Roedd yr ail gam yn canolbwyntio ar y fethodoleg i gyfrifo ac i ddsbarthu dyraniadau am ddim.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ystyried gwerthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon a ddiweddarwyd ar sail risg diwydiannau'r DU o ddadleoli carbon, gan adeiladu ar y cynigion a wnaed yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim⁵ a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024. Mae Awdurdod ETS y DU yn dal i ystyried cynigion eraill o'r ymgynghoriad blaenorol, sef sut i ymdrin â lefelau gweithgarwch, diweddariadau posibl i'r drefn feincnodi, a ddylid cyflwyno haenau neu fethodolegau ychwanegol eraill i gyfrif am fynediad at dechnolegau datgarboneiddio neu amodoldeb ai peidio, ynghyd â newidiadau technegol eraill i'r rheolau dyraniadau am ddim. Ceir mwy o wybodaeth am linell amser lawn yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yn Ffigur 2 ar dudalen 12.

Yng ngoleuni cyhoeddiad Llywodraeth y DU y bydd mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM) yn cael ei gyflwyno yn 2027⁶, mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn trafod cynigion o ran sut y dylid addasu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau a gwmpesir gan y CBAM. Ceir mwy o wybodaeth am CBAM y DU yn ail bennod y ddogfen ymgynghori hon.

Yr ymgynghoriad hwn

Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r Awdurdod eisoes wedi ymgynghori ynghylch y fethodoleg bresennol ar gyfer dosbarthu dyraniadau am ddim. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i randdeiliaid roi eu barn ynghylch a ddylid cyflwyno Rhestr Dadleoli Carbon sy'n seiliedig ar ddata sy'n benodol i'r DU, neu a fyddai'n well ganddynt gadw'r rhestr bresennol. Pe bai'r Awdurdod yn penderfynu diwygio'r Rhestr Dadleoli Carbon, byddai'n dod i rym ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu. Bydd yr ail gyfnod dyrannu yn dechrau yn 2027, gan gyd-daro â dyddiad cyflwyno'r CBAM. Felly, rydym hefyd yn gofyn i randdeiliaid roi eu barn ynghylch sut y dylid addasu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau a gwmpesir gan y CBAM.

Y cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghori hon

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys Rhestr Dadleoli Carbon ragarweiniol wedi'i diweddarau ar gyfer diwydiannau ar draws y DU ar sail data sy'n benodol i'r DU. Mae'r rhestr ddrafft i'w gweld ar dudalen 26.

⁴ Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU),

<https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets>, a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth 2022

⁵ Cynllun Masnachu Allyriadau y DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim,

<https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>, a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2023

⁶ <https://www.gov.uk/government/consultations/addressing-carbon-leakage-risk-to-support-decarbonisation/outcome/factsheet-uk-carbon-border-adjustment-mechanism>

Seiliwyd hyn ar ddull arfaethedig sy'n cynnwys nifer o elfennau a ddisgrifir drwy'r ddogfen ymgynghori hon:

- Ein dull gweithredu o ran hafaliad y Dangosydd Dadleoli Carbon;
- Y ffynonellau data a ddefnyddir i gyfrifo'r Dangosydd Dadleoli Carbon;
- Sut i fesur dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau;
- Trothwyon y Dangosydd Dadleoli Carbon sy'n pennu pwy sy'n gymwys i gael dyraniadau am ddim.

Ar gyfer y Rhestr Dadleoli Carbon bresennol⁷, cafodd y risg fesul sector o ddadleoli carbon ei hasesu mewn dau gam. Asesiad meintiol oedd y cam cyntaf, ac roedd yn neilltuo Dangosydd Dadleoli Carbon i bob sector. Roedd yr asesiad meintiol hwn yn defnyddio'r cyfrifiad a ganlyn fesul sector:

$$\text{Dangosydd Dadleoli Carbon} = \text{Dwysedd Masnachu} \times \text{Dwysedd Allyriadau}$$

Caiff y Rhestr Dadleoli Carbon bresennol ei hasesu ar sail ddeuaidd, yn bennaf ar sail sgôr Dangosydd Dadleoli Carbon pob sector, gyda'r rheini â dangosyddion uwchlaw 0.2 yn ymuno â'r Rhestr yn awtomatig. Ar hyn o bryd, mae sectorau ar y Rhestr Dadleoli Carbon y bernir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon yn cael Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon (CLEF) o 1, ac felly maent yn cael 100% o'u dyraniadau am ddim a feincnodwyd. Ar hyn o bryd, mae'r rheini nad ydynt ar y Rhestr Dadleoli Carbon, a chanddynt sgôr islaw 0.2, yn cael CLEF o 0.3, ac felly mae eu dyraniadau am ddim a feincnodwyd yn cael eu lluosu â'r swm hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, bydd gwerth CLEF y diwydiannau hynny nad ydynt ar y Rhestr Dadleoli Carbon yn gostwng yn raddol o 0.3 i sero erbyn 2030, ond trafodir cyflymder y broses hon yn yr ymgynghoriad hwn⁸.

Ym mis Rhagfyr 2023, bu inni ymgynghori ynghylch cynigion i rannu'r Rhestr Dadleoli Carbon a'r Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF) yn haenau⁹. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, i lunio'r polisi ac i baratoi ymateb yr Awdurdod i'r cynigion hyn. Mae cyfran y dyraniadau am ddim y bydd sectorau ar y Rhestr Dadleoli Carbon yn gymwys i'w chael yn y cyfnod nesaf yn parhau i fod yn ddibynnol ar ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad hwn, a disgwylir iddo gyhoeddi ei ymateb erbyn diwedd 2025. Gellir defnyddio gwerthoedd y dangosydd a gyflwynir ar dudalen 26 i ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon drwy'r dull deuaidd presennol neu drwy rannu'r rhestr yn haenau i dargedu'n well y rheini sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon, gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim. Mae'r Awdurdod yn ystyried ymatebion i'r cwestiwn ynghylch ffyrdd posibl o rannu'r Rhestr Dadleoli Carbon yn haenau.

Bydd y sectorau hynny y bernir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon ar sail y Rhestr Dadleoli Carbon yn wynebu addasiad pellach i'w dyraniadau am ddim yn sgil cyflwyno CBAM y DU yn 2027, os bydd y polisi'n berthnasol i'w sectorau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ynghylch methodoleg yr addasiad hwnnw, gan gynnwys:

- Paramedrau'r addasiad;

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/eu-origin/2019/708>


⁸ Ceir rhai eithriadau i'r rheolau hyn. Er enghraifft, nid yw'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr trydan yn cael dyraniadau am ddim o dan ETS y DU.

⁹ <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

- Hyd a lled yr addasiad;
- Rhoi'r addasiad ar waith yn dechnegol;
- Y meini prawf asesu a ddefnyddir i bennu methodoleg derfynol yr addasiad.

Mae llinell amser yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yn Ffigur 2 yn dangos dyddiadau ein cyhoeddiadau yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn gwneud ei orau glas i gyhoeddi newidiadau i'r dyraniadau am ddim cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl¹⁰.



Ffigur 2: Llinell amser yn Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

Bydd yr Awdurdod yn ystyried a yw'r polisi dyraniadau am ddim yn cydweddu â'n huchelgeisiau sero net a'r gwaith o lunio polisiâu dadleoli carbon ehangach pan fyddwn yn mynd ati i wneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Gall rhai rhannau o'r ymgynghoriad ofyn am dystiolaeth i ategu'r ymatebion. Pan fyddwn yn gofyn am dystiolaeth o'r fath, rydym yn eich annog i anfon tystiolaeth ysgrifenedig atom i ategu gwaith llunio polisiâu pellach. Bydd y dystiolaeth ysgrifenedig yn helpu'r Awdurdod â'i waith llunio polisiâu yn y dyfodol, gan sicrhau bod ei benderfyniadau terfynol yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael.

¹⁰ Yr ymarfer adrodd am ddata sylfaenol a'r cyfnod ymgeisio i gael dyraniadau am ddim yw'r cyfnod pan fydd diwydiannau sy'n rhan o'r cynllun yn cyflwyno data am eu gweithgareddau a'u hallyriadau yn ystod y cyfnod adrodd sylfaenol (2019-2023 ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu) ac yn gwneud cais i gael dyraniadau am ddim.

Pennod 1: Dangosyddion Dadleoli Carbon

Cefndir


Y Rhestr Dadleoli Carbon

Rhestr o'r sectorau diwydiannol y bernir eu bod mewn perygl o ddadleoli carbon yw'r Rhestr Dadleoli Carbon. Ar hyn o bryd, mae ETS y DU yn defnyddio Rhestr Dadleoli Carbon Cam IV ETS yr UE. Mae'r Rhestr yn diffinio'r sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon ar sail asesiad o'u dwysedd allyriadau a'u dwysedd masnachu.

Ar hyn o bryd, mae'r sectorau diwydiannol hynny sy'n rhan o ETS y DU ac sydd ar y Rhestr Dadleoli Carbon yn cael dyraniad dros dro o 100% o'u dyraniad am ddim a feincnodwyd, fel rhan o'r cam dyraniadau am ddim rhagarweiniol (CLEF o 1). Mae'r sectorau diwydiannol hynny nad ydynt ar y Rhestr Dadleoli Carbon yn cael dyraniad dros dro o 30% o'u dyraniad am ddim a feincnodwyd, fel rhan o'r cam dyraniadau am ddim rhagarweiniol (CLEF o 0.3) hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu hwn pan fydd yn gostwng yn raddol i 0% erbyn 2030.

Ar hyn o bryd, cyfrifir y Dangosydd Dadleoli Carbon gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddir ar gyfer Cam IV ETS yr UE, sef yr hafaliad a ganlyn (a ddisgrifir ar dudalen 11):

$$\text{Dangosydd Dadleoli Carbon} = \text{Dwysedd Masnachu} \times \text{Dwysedd Allyriadau}^{11}$$



Ffigur 3: Sut y cyfrifir y Dangosydd Dadleoli Carbon

¹¹ Dwysedd allyriadau yw swm yr allyriadau uniongyrchol (h.y. drwy losgi neu brosesau ar y safle) a'r allyriadau anuniongyrchol (y trydan a ddefnyddir) amcangyfrifedig fesul uned o gynnyrch economaidd (gwerth ychwanegol gros (GVA) yma).

Crynodeb o gynigion ymgynghori'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cynigion ymgynghori ynghylch y Dangosydd Dadleoli Carbon a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim, y cwestiynau a ofynnwyd, a'r ymatebion a ddaeth i law gan randdeiliaid. Rydym yn cynnwys yr wybodaeth hon yma gan ein bod wedi'i hystyried wrth fynd ati i lunio'r cynigion polisi a gyflwynir yng ngweddill y ddogfen ymgynghori hon.

Methodoleg

Bu i'r Awdurdod gynnig bod y dull hwn o weithredu a'r newidynnau hyn yn asesiad cywir o'r risg o ddadleoli carbon er mwyn cyfrifo a yw gweithfeydd yn gymwys i gael dyraniadau am ddim, a bu iddo ddatgan mai ei fwriad oedd parhau i ddefnyddio'r fethodoleg bresennol i gyfrifo'r Dangosydd Dadleoli Carbon ar gyfer yr ail gyfnod dyrannu.

Defnyddio data

Fel rhan o'n hadolygiad o'r Rhestr Dadleoli Carbon, bu inni hefyd ystyried a ddylid defnyddio ffynonellau data amgen i gyfrifo'r rhestr. Bu inni gyflwyno sawl cyfuniad o setiau data a brofwyd ar sail y meini prawf a ganlyn:

- Eu cywirdeb o ran adlewyrchu'r tebygolrwydd o ddadleoli carbon;
- Methodoleg y gellir ei hamddiffyn;
- Sectorau'r ETS a gwmpesir ganddynt;
- Y graddau y maent yn canolbwyntio ar y DU;
- Argaeledd yr wybodaeth;
- Hirhoedledd y setiau data.

Bu inni ddatgan mai ein bwriad oedd defnyddio data'r DU ar sail data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), wedi'u hategu gan ddata'r Arolwg Blynyddol o Fusnesau (ABS) a data masnach Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Roedd y set ddata a luniwyd ar sail y ffynonellau a restrir uchod yn bodloni'r holl feini prawf.

Dull gweithredu o ran sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon

Dywedodd yr Awdurdod mai ei fwriad oedd dwyn ymlaen i 2026¹² y dyddiad y bydd dyraniadau am ddim y sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon yn dirwyn i ben, sef dyddiad yr ail gyfnod dyrannu ar adeg yr ymgynghoriad. Byddai hyn yn diddymu dyraniadau am ddim y sectorau hynny ac yn sicrhau bod modd targedu cymorth at y sectorau lle y mae'r risg ar ei mwyaf. O ddileu dyraniadau am ddim sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon, bydd hefyd yn helpu i liniaru'r risg o sbarduno Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF)¹³.

¹² Yn sgil penderfyniad yr Awdurdod i newid dyddiadau'r ail gyfnod dyrannu, byddai hyn bellach yn digwydd yn 2027.

¹³ Os yw cyfanswm y dyraniadau am ddim ar gyfer pob gweithredwr diwydiannol uwchlaw cap y diwydiant, byddwn yn lleihau dyraniadau am ddim y gweithfeydd sefydlog yn gymesur. Ffactor Cywiro ar draws Sectorau (CSCF) yw'r enw ar hyn.

Cwestiynau ymgynghori Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim 2023

- 12. Ydych chi'n cytuno y dylid diweddarau'r rhestr dadleoli carbon i adlewyrchu risg dadleoli carbon sector diwydiannol y DU? Os ydych yn anghytuno, esboniwch sut rydych yn meddwl y dylid cyfrifo'r rhestr dadleoli carbon yn y dyfodol.**
- 13. Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i gyfrifo'r risg o ddadleoli carbon ar sail dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu, neu a oes ffactorau eraill y dylai'r Awdurdod eu hystyried yn eich barn chi?**
- 14. Ar sail y setiau data rydym wedi'u harchwilio, ydych chi'n cytuno â'n dull o archwilio gan ddefnyddio data'r DU yn seiliedig ar ddata masnachu'r SYG, ABS a CThEF? Ac, os canfyddir bod y set ddata hon yn gynrychioliadol, ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ei defnyddio i gyfrifo'r dangosydd dadleoli carbon?**
- 15. Ydych chi'n cytuno â'r risgiau rydym wedi'u nodi gyda'r setiau data amgen? Os nad ydych chi, darparwch dystiolaeth.**
- 16. Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i ddod â dyddiad dirwyn i ben y CLEF ymlaen i 2026 ar gyfer y rhai nad ydynt ar y rhestr dadleoli carbon?**

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 58 o ymatebion i gwestiwn 12. O'u plith, roedd 50 (86%) yn cytuno â'r cynnig i ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon i adlewyrchu risg sectorau diwydiannol y DU o ddadleoli carbon, ac roedd wyth (14%) yn anghytuno. O blith y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, ar draws sectorau diwydiannol, y sector pŵer a chyrrff anllywodraethol, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn credu yn yr egwyddor y dylai dyraniadau am ddim fod yn seiliedig ar y risg o ddadleoli carbon yn y DU. O blith y rheini a oedd yn anghytuno, ar draws sectorau diwydiannol a chyrrff anllywodraethol, y prif themâu oedd y dylai cymhwysra i gael dyraniadau am ddim gydweddu â'r dull gweithredu o ran CBAM y DU sy'n seiliedig ar y Rhestr Dadleoli Carbon bresennol. Dywedodd eraill y byddai'n well ganddynt pe bai trefniadau'r DU a'r UE yn gyson â'i gilydd, yn hytrach na thargedu'r risg o ddadleoli carbon yn y DU.

Cafwyd 48 o ymatebion i gwestiwn 13. O'u plith, roedd 35 (73%) yn cytuno â'r cynnig y dylai'r risg o ddadleoli carbon barhau i gael ei chyfrifo ar sail dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu, roedd 12 (25%) yn anghytuno, ac nid oedd un (2%) yn cytuno nac yn anghytuno. O blith y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig, ar draws sectorau diwydiannol, y sector pŵer a chyrrff anllywodraethol, y thema a grybwyllwyd amlaf oedd mai'r rhain oedd y metrigau cywir i fesur y risg o ddadleoli carbon. O blith y rheini a oedd yn anghytuno, ar draws sectorau diwydiannol a chyrrff anllywodraethol, bu i lawer grybwyll ffactorau eraill y dylid eu hystyried, gan gynnwys mynd ati fesul sector i asesu'r risg o ddadleoli carbon, defnyddio dull sy'n cydweddu ag asesiad CBAM y DU, neu beri iddi fod yn ofynnol cynnal asesiad ansoddol ail lefel, yn ogystal â'r asesiad meintiol. Y rheswm a roddwyd gan yr ymatebydd nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig oedd na chafodd digon o wybodaeth ei darparu er mwyn iddo fynegi barn.

Cafwyd 41 o ymatebion i gwestiwn 14. O'u plith, roedd 32 (78%) yn cytuno â'r bwriad i bwysu a mesur defnyddio data'r DU ar sail data masnachu'r SYG, yr ABS a CThEF i gyfrifo'r risg o ddadleoli carbon, roedd pump (12%) yn anghytuno â'r cynnig, ac nid oedd pedwar (10%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. O blith y rheini a oedd yn cytuno, ar draws sectorau diwydiannol, y sector pŵer a chyrrff anllywodraethol, bu i'r rhan fwyaf grybwyll y dylem barhau i

ddefnyddio proses dryloyw, gan gynnwys cynnal ymarfer ymgynghori pellach a fydd yn cynnwys gwerthoedd drafft y Dangosydd Dadleoli Carbon er mwyn i randdeiliaid roi sylwadau arnynt. Yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig oedd yr ymatebwyr hynny a oedd hefyd yn gwrthwynebu diweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon (C12), a hynny am yr un rhesymau. Dywedodd y rheini nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig na chafodd digon o wybodaeth ei darparu er mwyn iddynt fynegi barn.

Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 15. O'u plith, roedd 22 (73%) yn cytuno â'r risgiau y bu i'r Awdurdod eu nodi o ran y setiau data amgen, roedd chwech (20%) yn anghytuno, ac nid oedd dau (7%) yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'r risgiau a nodwyd, ar draws cymysgedd o sectorau diwydiannol, y sector pŵer a chyrrff anllywodraethol, hefyd yn croesawu ymarfer ymgynghori pellach. Y brif thema a godwyd gan y rheini a oedd yn anghytuno â'r risgiau a nodwyd oedd bod cysoni'r cwmpas ar draws y sectorau a gwmpesir gan ETS y DU yn bwysicach na'r cwmpas ei hun. Dywedodd y rheini nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig na chafodd digon o wybodaeth ei darparu er mwyn iddynt fynegi barn.

Cafwyd 48 o ymatebion i gwestiwn 16. O'u plith, roedd 26 (54%) yn cytuno â'r bwriad i ddwyn dyddiad dirwyn i ben y CLEF ymlaen i 2026 ar gyfer y rhai nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon, roedd 20 (42%) yn anghytuno â'r cynnig, ac nid oedd dau (4%) yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd y rheini a oedd yn cytuno, ar draws sectorau diwydiannol, y sector pŵer a chyrrff anllywodraethol, yn cytuno'n enwedig â'r egwyddor o dargedu cymorth yn well at y sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon. Dywedodd y rheini a oedd yn anghytuno, ar draws y sector pŵer a sectorau diwydiannol, y byddai angen parhau i ddarparu rhywfaint o gymorth i liniaru'r risg o ddadleoli carbon yn ystod y cyfnod pontio i sero net, ac y byddent yn croesawu cyfle arall i roi eu barn am Restr Dadleoli Carbon ddrafft. Dywedodd y rheini nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig na chafodd digon o wybodaeth ei darparu er mwyn iddynt fynegi barn.

Diweddarau Dangosyddion Dadleoli Carbon y DU

Ar hyn o bryd, mae ETS y DU yn defnyddio'r un Rhestr Dadleoli Carbon ag ETS yr UE (Rhestr Dadleoli Carbon Cam IV) a fabwysiadwyd gan Gomisiwn yr UE yn 2019. Rhoddir dangosyddion dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu i bob diwydiant, ar sail data'r UE yn ei gyfanrwydd sy'n gysylltiedig â blynyddoedd 2014-2016. Felly, ceir risg nad yw'r data hyn yn gynrychioliadol o ddiwydiannau presennol y DU.

Bwriedir i'r newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Dadleoli Carbon barhau i ddefnyddio'r un dull methodolegol ag a ddefnyddir ar gyfer y Dangosyddion Dadleoli Carbon presennol, ond gan ddiweddarau'r data er mwyn iddynt fod yn fwy cyfredol ac yn fwy cynrychioliadol o ddiwydiannau ledled y DU. Fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yn 2023,¹⁴ gall fod sawl mantais o ddiweddarau'r Dangosydd Dadleoli Carbon gan ddefnyddio data newydd sy'n canolbwyntio ar y DU:

- Gall y dangosyddion fod yn fwy penodol i'r rheini sy'n rhan o ETS y DU, ac yn fwy cynrychioliadol ohonynt;

¹⁴ Gweler yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim ([2023](#)) Atodiad Dadansoddol t.21

- Gall defnyddio data mwy diweddar roi cyfrif am newidiadau diweddar o ran masnachu neu allyriadau;
- Mae'r fethodoleg yn darparu dilyniant i'r cyfranogwyr, ond gan ganiatáu hyblygrwydd posibl o ran y dull gweithredu os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

Yn gyffredinol, bwriedir i'r dull hwn o weithredu sicrhau bod dyraniadau am ddim yn cael eu targedu'n well at y sectorau sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon, yn unol ag amcan yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim. Fodd bynnag, fel y nodir yn ddiweddarach yn y bennod hon, bu'n rhaid i Restr Dadleoli Carbon y DU mewn rhai achosion ddibynnu ar ddulliau wrth gefn pan geir bylchau yn y data, felly gall fod nad yw'n ddewis gwell i dargedu dyraniadau am ddim.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ynghylch Dangosyddion Dadleoli Carbon, bu i Adran Diogeled Ynni a Sero Net Llywodraeth y DU hefyd gomisiynu prosiect ymchwil allanol gan NERA¹⁵ i lunio Dangosyddion Dadleoli Carbon ar sail data'r DU wedi'u diweddarau. Bu i'r prosiect hwn ganolbwyntio ar lunio Dangosyddion Dadleoli Carbon wedi'u diweddarau ar sail y meini prawf a nodwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch dyraniadau am ddim a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023¹⁶. I wneud hyn, cafodd y setiau data posibl a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad eu casglu a'u hasesu er mwyn llunio Dangosyddion Dadleoli Carbon wedi'u diweddarau ar sail y dull methodolegol presennol, a chafodd y canlyniadau eu gwerthuso.¹⁷ Defnyddiwyd y meini prawf a ganlyn i asesu'r setiau data:

- a) Ansawdd a chywirdeb y data: Mae'r data'n adlewyrchu'r tebygolrwydd o ddadleoli carbon a dylent gofnodi dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu ar gyfer pob diwydiant. Cynhyrchir y data yn unol â safonau cadarn, gyda lefel uchel o hyder yn yr amcanestyniadau a dim llawer o oedi cyn cyhoeddi'r data;
- b) Cwmpas y data: Mae'r data'n cynnwys pob diwydiant a gwmpesir gan ETS y DU;
- c) Canolbwyntio ar y DU: Mae'r data'n seiliedig ar gwmnïau'r DU ac maent yn gynrychioliadol o'r cyfranogwyr;
- d) Tryloywder: Dylai'r data fod yn hawdd cael gafael arnynt, dylent fod yn dryloyw, a dylent fod ar gael i gyfranogwyr y cynllun, o ddewis drwy ddefnyddio setiau data cyhoeddus;
- e) Hirhoedledd: Ceir lefel uchel o hyder y bydd y setiau data'n cael eu cynhyrchu yn ystod camau diweddarach.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Technegol llawn NERA, sy'n cynnwys manylion am y dull a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, a'r setiau data a archwiliwyd, ar gov.uk¹⁸.

Y metrigau a ddefnyddir i gyfrifo'r Dangosydd Dadleoli Carbon

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim, ac fel a gefnogwyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, mae'r Awdurdod yn credu mai dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau yw'r metrigau mwyaf perthnasol o ran asesu risg pob diwydiant o

¹⁵ <https://www.nera.com/about.html>

¹⁶ <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

¹⁷ Cyhoeddir methodoleg fanwl ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage

¹⁸ www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review-carbon-leakage


ddadleoli carbon ac at ddiben cyfrifo a yw gweithfeydd yn gymwys i gael dyraniadau am ddim. Ceir mwy o fanylion am y cyfrifiad yn yr adran 'Ystyriaethau pellach o ran y fformiwla' isod.

Ffynonellau data

Yn sgil yr ymgynghoriad hwn, os bydd yr Awdurdod yn penderfynu diweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, ein bwriad o hyd fydd defnyddio'r ffynonellau data a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim, sef cyfuniad o ddata'r DU sy'n deillio o adroddiadau cydymffurfiaeth ETS y DU, data'r SYG am allyriadau a gwariant, data cynnyrch economaidd o'r Arolwg Blyneddol o Fusnesau (ABS), a data masnachu CThEF. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi hyn, fel y disgrifir ar dudalen 15.

Cynhaliodd NERA asesiad pellach o'r ffynonellau data hyn a, lle'r oedd yn briodol, bu iddo ddefnyddio data pellach i ategu ei asesiad. Mae'r Awdurdod wedi pwysu a mesur diweddarau'r ffynonellau data sydd eu hangen i osod sail ar gyfer y ffigur isod, a hynny er mwyn cyfrifo dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau. Ym mhob achos lle nad oedd data cyflawn ar gael, rydym wedi pwysu a mesur defnyddio data 'wrth gefn' sy'n dal i sicrhau gwelliant cyffredinol net o ran y data dadleoli carbon sy'n benodol i'r DU.

Mae holl fanylion y fethodoleg hon i'w gweld yn Adroddiad Technegol NERA, ond caiff y prif benderfyniadau eu crynhoi isod.



Ffigur 4: Manylion o ran sut y cyfrifir y Dangosydd Dadleoli Carbon

Ffynonellau data i gyfrifo dwysedd masnachu

Cyhoeddir data masnach CThEF yn rheolaidd, bob mis, yn ôl cynhyrchion, ac maent yn gwahaniaethu rhwng masnach â'r UE a masnach heb fod â'r UE.

Mae CThEF yn casglu data am fasnach ryngwladol y DU mewn nwyddau, gan gyhoeddi ystadegau swyddogol, achrededig bob mis. Cyhoeddir yr Ystadegau Masnach Dramor (OTS) bob mis ac maent yn cynnwys gwerthoedd masnach mewnforio ac allforio yn ôl codau

cynnyrch manwl a gwlad bartner, gan gynnwys masnach â'r UE a masnach heb fod â'r UE.¹⁹ Gan mai data masnach yw'r rhain, cânt eu hadrodd ar lefel cynnyrch, yn hytrach nag ar sail cod dosbarthu'r diwydiant (NACE neu SIC) (y lefel a'r dull a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd Dangosydd Dadleoli Carbon sectorau ETS y DU).

Os gwneir newidiadau i'r Rhestr Dadleoli Carbon, bwriad yr Awdurdod fydd parhau i ddefnyddio'r un codau dosbarthu NACE pedwar digid i gyfrifo'r Dangosyddion Dadleoli Carbon, ac mae wedi mapio data masnach CThEF i'r codau dosbarthu hyn at ddiben diweddarau'r Dangosyddion Dadleoli Carbon gan ddefnyddio tabl cyfatebiaeth Eurostat²⁰.

Roedd y dull hwn yn bodloni'r profion o ran hirhoedledd, tryloywder, ansawdd data a chanolbwyntio ar y DU. Yn achos nifer fach o sectorau nad oedd modd eu mapio'n uniongyrchol,²¹ defnyddiwyd dulliau wrth gefn, fel y manylir isod.

Mae'r SYG, fel rhan o'i Harolwg Blynyddol o Fusnesau, yn cyhoeddi data am werth ychwanegol gros (GVA) a throsiant sectorau, ar lefel SIC pedwar digid sy'n cyfateb i'r codau NACE a ddefnyddir yn y Dangosydd Dadleoli Carbon. Felly, rydym wedi defnyddio'r set ddata hon fel y brif ffynhonnell ar gyfer allbwn sectorau wrth gyfrifo dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau.²²

Roedd nifer fach (23) o ddiwydiannau²³ lle nad oedd data neu ddata dibynadwy ar gael yn yr Arolwg Blynyddol o Fusnesau (ABS). Mewn achosion o'r fath, mae angen data wrth gefn neu gyfrifiad amgen. Gan mwyaf, caiff trosiant ei amcangyfrif gan ddefnyddio data o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR).²⁴ Ar gyfer tri o sectorau'r ETS²⁵, lle nad oedd data trosiant cynrychioliadol ar gael drwy'r ABS, hyd yn oed o'i ategu â'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, rydym wedi defnyddio'r dull wrth gefn y manylir arno isod.

Ar gyfer y tri sector lle nad oedd modd defnyddio'r opsiwn a ffeirir, sef defnyddio data CThEF, yr ABS a'r IDBR ar gyfer pob rhan o'r cyfrifiad dwysedd masnachu, rydym wedi defnyddio data dwysedd masnachu ETS yr UE fel data wrth gefn. Gan nad oes llawer o ddata ar gael, rydym yn ystyried bod y dwysedd masnachu a gyfrifwyd gan yr UE yn fesur procsi rhesymol o ddwysedd masnachu cwmnïau ar draws y DU yn y sectorau hyn. O ran y sector echdynnu nwyon naturiol, rydym yn defnyddio'r opsiwn wrth gefn ar gyfer yr allyriadau uniongyrchol a'r allyriadau anuniongyrchol oherwydd y data GVA annormal a adroddir yn set ddata ABS SYG (ceir mwy o fanylion am hyn yn adran 3.2 o Adroddiad Technegol NERA).

Y brif risg o ddefnyddio'r data wrth gefn hyn yw ei bod yn bosibl nad yw dwysedd masnachu'r UE yn nodweddiadol o gwmnïau ar draws y DU, ac nid yw'n caniatáu i'r Awdurdod ystyried unrhyw sensitifrwydd o ran cynnwys neu hepgor masnach â'r UE. Rydym yn gofyn am sylwadau ar y dull wrth gefn hwn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

¹⁹ Gweler [tablau data masnach dramor](#) CThEF i gael gafael ar y data ac [ystadegau masnach nwyddau'r DU](#) i gael y manylion methodolegol

²⁰ Fel y nodir yn [Fframwaith asesiadau meintiol wedi'u dadgyfuno](#) y Comisiwn Ewropeaidd. Ymhlith y newidynnau mae gwerth neu faint y fasnach – [cronfa ddata Eurostat Europroms](#), y cynnyrch a werthwyd – [cronfa ddata Eurostat Europroms](#), a'r allyriadau CO₂ uniongyrchol fesul gweithfa

²¹ Er enghraifft, y diwydiant gorffennu tecstilau

²² Gweler SYG (2024) Economi busnesau anariannol, y DU: Adrannau A i S

²³ Mae Adroddiad Technegol NERA yn nodi bod 331 sector wedi'u hystyried, felly mae 23 diwydiant yn cyfrif am 7%

²⁴ Gweler [y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau \(IDBR\)](#). Gellir cael gafael ar y data yn [Nomis: Cyfrifon Busnesau'r DU - busnesau yn ôl diwydiant a band maint cyflogaeth](#)

²⁵ Y tri sector hyn yw 08.91 Mwyngloddio mwynau cemegol a gwrteithio, 10.81 Gweithgynhyrchu siwgr, a 24.46 Prosesu tanwydd niwclear

Ffynonellau data i gyfrifo dwysedd allyriadau

Rydym yn cyfrifo dwysedd allyriadau ar ffurf swm dwysedd yr allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, fesul uned o gynnyrch economaidd (GVA), fel y'i cyfrifir yn y Dangosydd Dadleoli Carbon presennol.²⁶

Y brif ffynhonnell ar gyfer cyfrifo dwysedd yr allyriadau uniongyrchol yw data cydymffurfiaeth ETS y DU. Mae'r rhain yn adroddiadau dibynadwy a wiriwyd ac a gyhoeddwyd.²⁷ Mae'r data hyn yn cynnwys yr allyriadau blynyddol (y lwfansau a ildiwyd) a gofnodwyd gan bob gweithfa sy'n cymryd rhan yn ETS y DU.

Er bod set ddata amgen ar gael gan y SYG ynghylch allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol fesul diwydiant, o'i harchwilio'n fanylach, nid yw'r ffynhonnell hon yn bodloni maen prawf yr asesiad o ran 'cwmipas y data'. Y rheswm am hyn yw bod nifer sylweddol o sectorau wedi'u hepgor neu wedi'u cydgrynhoi ac nad yw'r data'n ddigon manwl at y diben hwn. Yn ogystal, nid oes allyriadau ETS wedi'u cofnodi ar gyfer sectorau sy'n ymddangos ar lefel gweithgarwch is-weithfa yn unig yn ETS y DU, ond nid yn y data Cydymffurfiaeth Allyriadau ac Ildiadau a gyhoeddir ar lefel gweithfa²⁸. Felly, mae'r sectorau hyn, yn ogystal â rhai sectorau eraill, yn defnyddio amcangyfrif wrth gefn y SYG ar gyfer dwysedd yr allyriadau uniongyrchol. Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu diweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, bwriedir defnyddio'r data SYG hyn i lenwi unrhyw fylchau o ran y data allyriadau uniongyrchol a ddarperir gan gyfranogwyr ETS y DU drwy eu hadroddiadau cydymffurfio blynyddol.

Pan fo angen data trosiant ar gyfer rhan o'r cyfrifiad dwysedd allyriadau, yn yr un modd â'r cyfrifiad dwysedd masnachu, rydym wedi defnyddio set ddata ABS y SYG sydd hefyd yn adrodd am werthoedd GVA fesul diwydiant. Fodd bynnag, lle'r oedd bylchau yn y data, rydym wedi defnyddio data wrth gefn, fel arfer y cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) ar gyfer gweithgareddau economaidd y rhiant-ddiwydiant. O wneud hyn, roedd tri sector ETS (mwyngloddio mwynau cemegol a gwrteithio, gweithgynhyrchu siwgr, a phrosesu tanwydd niwclear) lle nad oedd modd pennu data cywir; felly, rydym wedi defnyddio data wrth gefn, fel y nodir yn y tri pharagraff nesaf.

Y prif ddull a ddefnyddir i gyfrifo dwysedd yr allyriadau anuniongyrchol yw amcangyfrif y gwariant ar drydan ar lefel diwydiant, ochr yn ochr â dwysedd yr allyriadau ac allbwn y diwydiant, i fodelu newidynnau o ran dwysedd yr allyriadau anuniongyrchol. Rydym wedi defnyddio data o Arolwg Blynyddol y SYG o Bryniannau ar wariant ar drydan yn ôl cod NACE pedwar digid,²⁹ a data'r Llyfr Gwyrdd am brisiau trydan.³⁰ Ceir mwy o fanylion am yr union fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo hyn yn adran 4.2.3 o Adroddiad Technegol NERA. O wneud hyn, ceir 12 sector lle y mae gwerthoedd ar goll o hyd ac rydym wedi dewis defnyddio dull wrth gefn i fynd i'r afael â'r rhain.

Y dull wrth gefn a ddefnyddiwyd ar gyfer y sectorau hynny nad oedd modd cyfrifo data cywir ar gyfer dwysedd eu hallyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol oedd defnyddio codau'r

²⁶ Allyriadau uniongyrchol yw'r rheini a gynhyrchir ar y safle, drwy losgi tanwydd ar y safle i gynhyrchu cynnyrch, ac allyriadau o ffynonellau a reolir yn uniongyrchol gan y corff sy'n adrodd. Allyriadau anuniongyrchol yw'r rheini a briodolir i'r trydan [ager, gwres ac oeri] a brynir i gynhyrchu cynnyrch. Cyfrifir pob un o'r rhain fel swm cyfartalog y diwydiant o allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer pob uned o gynnyrch economaidd (GVA).

²⁷ Gweler Adroddiadau Cyhoeddus ETS y DU (2024) Adroddiad Cydymffurfiaeth – Allyriadau ac Ildiadau

²⁸ Gweler Cofrestrfa Masnachu Allyriadau'r DU (2024) <https://reports.view-emissions-trading-registry.service.gov.uk/ets-reports.html>

²⁹ SYG (2024) Arolwg Blynyddol o Bryniannau

³⁰ Gweler yr Adran Diogeldd Ynni a Sero Net (2023) Canllawiau atodol y Llyfr Gwyrdd: prisio'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr i'w harfarnu

sectorau ar lefel rhiant³¹. Mae'n bosibl nad yw'r rhain yn gynrychioliadol o'r is-sectorau penodol yr ydym yn cyfrifo'r risg o ddadleoli carbon ar eu cyfer. Fodd bynnag, o ystyried y gallai'r duedd fod ar i fyny neu ar i lawr, mae'r Awdurdod yn credu mai hon yw'r fethodoleg a ffefrir, ac rydym yn gofyn am sylwadau ar y dull wrth gefn hwn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

O ran echdynnu nwyon naturiol, defnyddir dull wrth gefn i gyfrifo dwysedd yr allyriadau uniongyrchol a dwysedd yr allyriadau anuniongyrchol. Ceir mwy o wybodaeth am y dull wrth gefn hwn yn adran 5.3.1 o Adroddiad Technegol NERA. Mae newidynnau'r dwysedd allyriadau a'r dwysedd masnachu yn fwy na'r gwerthoedd presennol, gan beri bod Dangosydd Dadleoli Carbon y sector uwchlaw'r trothwy i ymuno â'r Rhestr. Mae hyn yn digwydd o ddefnyddio'r prif ddull (o'r gwaelod i fyny) neu'r newidyn dwysedd allyriadau wrth gefn.

- 1. A ydych yn cytuno â'r setiau data a ddefnyddiwyd i gyfrifo dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch setiau data amgen.**
- 2. A ydych yn cytuno â'r dulliau wrth gefn a ddefnyddiwyd mewn achosion lle'r oedd bylchau'n weddill yn y setiau data ar gyfer dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch ddulliau amgen.**

Ystyriaethau pellach o ran y fformiwla

Cyfrifo dwysedd masnachu

Fel y disgrifir uchod, mae'n dal i fod yn fwriad gan yr Awdurdod i ddefnyddio dwysedd masnachu fel un o'r prif fetrigau i gyfrifo'r risg o ddadleoli carbon. O dan y Dangosyddion Dadleoli Carbon presennol, mae dwysedd masnachu diwydiant yn seiliedig ar ddata masnachu ledled yr UE, ac felly dim ond mewforion o wledydd nad ydynt yn aelodau o'r UE, ac allforion iddynt, a gofnodir ganddynt. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw fasnach rhwng y DU a'r UE yn cael ei gofnodi o fewn y newidynnau dwysedd masnachu, er y gallant fod yn arbennig o berthnasol i ddiwydiannau ledled y DU. O gyfrifo Dangosyddion Dadleoli Carbon penodol ar gyfer y DU, mae'n awgrymu y dylem gynnwys masnach â'r holl bartneriaid masnachu, gan gynnwys yr UE.

Felly, mae angen penderfynu a ddylid cynnwys holl fasnach y DU, neu hepgor masnach rhwng y DU a'r UE o'r newidyn hwn. Ar y naill law, gall y risgiau o ddadleoli carbon o'r DU i'r UE fod yn is na'r risgiau o ddadleoli carbon i wledydd nad ydynt yn aelodau o'r UE, gan fod cynlluniau prisio a rheoleiddio carbon tebyg ar waith yn y DU a'r UE. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi mai rhan o'n sail resymegol dros ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, er mwyn iddi fod yn seiliedig ar risg dadleoli carbon diwydiannau'r DU, oedd ystyried y goblygiadau masnachu yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Roedd hon hefyd yn thema bwysig yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. O gynnwys yr holl fasnach, mae hefyd yn gyson â'r dull methodolegol a ddefnyddir ar gyfer y Dangosyddion Dadleoli Carbon presennol, ac mae'n sicrhau bod dull clir a syml yn cael ei ddefnyddio. Felly, at ei gilydd, rydym wedi dewis cynnwys yr holl fasnach

³¹ Yn eu plith mae: Sector 06.20 Echdynnu nwyon naturiol; Sector 23.52 Gweithgynhyrchu calch a phlastr; Sector 23.31 Gweithgynhyrchu teils a cherrig llorio serameg; Sector 10.62 Gweithgynhyrchu startsh a chynnyrch startsh; Sector 23.11 Gweithgynhyrchu gwydr gwastad; Sector 23.13 Gweithgynhyrchu gwydr cau; Sector 23.99 Gweithgynhyrchu cynhyrchion mwynau anfetelaidd eraill n.dd.b.; Sector 08.91 Mwyngloddio mwynau cemegol a gwrteithio; Sector 23.14 Gweithgynhyrchu ffibrau gwydr; Sector 24.46 Prosesu tanwydd niwclear; Sector 10.81 Gweithgynhyrchu siwgr; a Sector 23.32 Gweithgynhyrchu brics, teils a chynhyrchion adeiladu clai cras.

(gan gynnwys masnach rhwng y DU a'r UE) yn y newidyn dwysedd masnachu wrth gyfrifo'r Rhestr Dadleoli Carbon ragarweiniol. Rydym yn gofyn am sylwadau ar hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Cyfrifo dwysedd allyriadau

Fel y disgrifir uchod, mae'n dal i fod yn fwriad gan yr Awdurdod i ddefnyddio dwysedd allyriadau fel un o'r prif fetrigau i gyfrifo'r risg o ddadleoli carbon. Un o'r materion eraill a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad a gynhaliwyd gan NERA oedd penderfynu a ddylid parhau i gynnwys allyriadau anuniongyrchol yn fformiwla'r Dangosydd Dadleoli Carbon.

Mae polisïau eraill ar waith ledled y DU y bwriedir iddynt ddigolledu cwmnïau neu'u heithrio rhag trefniadau prisio carbon, er enghraifft, Cynllun Digolledu Costau Uniongyrchol yr ETS a estynnwyd tan fis Mawrth 2025³². Fodd bynnag, nid yw'r cynllun hwn ond yn cwmpasu is-set o ddiwydiannau a chwmnïau, felly rydym yn ystyried bod allyriadau anuniongyrchol yn ffactor perthnasol o ran asesu'r risg o ddadleoli carbon. Mae'r Awdurdod yn cynnig parhau i gynnwys dwysedd allyriadau anuniongyrchol fel rhan o'r asesiad o ddwysedd allyriadau yng nghyfrifiad y Dangosydd Dadleoli Carbon. Rydym yn gofyn am sylwadau ar hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Methodoleg gwerthoedd trothwy'r Dangosydd Dadleoli Carbon


Fel rhan o'r gwaith o ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, rhaid i'r Awdurdod ddefnyddio dull i bennu gwerthoedd trothwy ar gyfer y Rhestr Dadleoli Carbon (h.y. pa werthoedd Dangosydd Dadleoli Carbon sydd mewn perygl o ddadleoli carbon ac felly pa sectorau diwydiannol a gaiff eu cynnwys ar y Rhestr Dadleoli Carbon). Rydym wedi pwysu a mesur dau brif ddull i bennu'r gwerth hwn:³³

A) Cadw'r un gyfran o ddiwydiannau ag o'r blaen ar y Rhestr Dadleoli Carbon. Yn yr achos hwn, y gwerthoedd cymharol a'r safleoedd ar y rhestr sy'n pennu gwerth y trothwy.

B) Defnyddio cyfrifiad o'r gwaelod i fyny i gyfrifo gwerth trothwy disgwylidig y Dangosydd Dadleoli Carbon (ar sail dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau fesul uned o GVA), gydag unrhyw ddiwydiant sydd uwchlaw'r trothwy hwnnw'n cael ei ystyried yn un lle ceir risg o ddadleoli carbon. Mae hyn yn ddrych o'r dull a ddefnyddiwyd yn wreiddiol gan yr UE i bennu'r trothwy ar gyfer Rhestr Dadleoli Carbon ETS yr UE. Yn yr achos hwn, cyfrifir y gwerth absoliwt yn annibynnol, ac ystyrir bod pob diwydiant â gwerth uwchlaw'r trothwy mewn perygl o ddadleoli carbon. Gallai'r dull hwn o weithredu beri bod nifer fwy neu lai o ddiwydiannau ledled y DU ar y Rhestr.

³²Digolledu am gostau anuniongyrchol ETS y DU a'r mecanwaith CPS tudalen gov.uk

³³Sylwch fod y dull hwn yn ymwneud â defnyddio un trothwy, gyda'r rheini sydd uwchlaw'r trothwy'n cael eu hystyried fel rhai sydd ar y Rhestr a'r rheini islaw'r trothwy'n cael eu hystyried fel rhai nad ydynt ar y Rhestr. Serch hynny, nid yw'n golygu na ellir rhannu diwydiannau yn haenau ychwanegol.




Ffigur 5: Y Dangosydd Dadleoli Carbon presennol a'r Dangosydd Dadleoli Carbon wedi'i ddiweddarau gan ddefnyddio Dull A (ffynhonnell: Adroddiad Technegol NERA)

Ceir asesiad o'r dulliau hyn yn Adroddiad Technegol NERA sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon. Yn ymarferol, roedd y ddau ddull yn rhoi trothwyon tebyg iawn, gyda dull B yn darparu trothwy ychydig yn uwch na dull A. Yn fras, mae canlyniadau'r ddau ddull yn gyson â'i gilydd. Yn gyffredinol, y prif ddull a ddefnyddir i bennu gwerth y trothwy yw opsiwn A sy'n anelu at ddewis yr un pwynt (canradd) yn nosbarthiad trefnedig yr holl werthoedd Dangosydd Dadleoli Carbon fel o'r blaen. Mae opsiwn B yn darparu dull defnyddiol o groeswiro gwerth opsiwn A. Fodd bynnag, mae opsiwn B yn dibynnu ar sawl rhagdybiaeth, fel pris carbon y farchnad, a gall opsiwn A ddarparu dull mwy tryloyw.

Mae hyn yn rhoi gwerth Dangosydd Dadleoli Carbon o 0.14 ar gyfer sectorau gan ddefnyddio'r dwysedd allyriadau uniongyrchol o'r gwaelod i fyny. Felly, os bydd yr Awdurdod yn penderfynu cyflwyno Rhestr Dadleoli Carbon newydd, ein bwriad fydd pennu trothwy o 0.14 er mwyn bod yn gymwys i gael dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau y cafodd eu Dangosydd Dadleoli Carbon ei bennu ar sail methodoleg dwysedd allyriadau uniongyrchol o'r gwaelod i fyny.

Fel y nodir yn Adroddiad Technegol NERA, i ganiatáu lwfans ansicrwydd rhesymol o ran cymhwyso'r trothwy, pennwyd trothwy o 0.14 a gymhwysir i ddau le degol. Felly, bydd pob sector â Dangosydd Dadleoli Carbon wedi'i dalgrynnu i'r ail le degol o 0.14 neu uwch yn ymuno â'r Rhestr Dadleoli Carbon. Bydd hyn yn peri bod 35 sector ar Restr Dadleoli Carbon ETS y DU.

Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu diweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, rydym yn bwriadu glynu at y safbwynt a fynegwyd gennym eisoes a pheidio â chynnig asesiad ansoddol ail gam (a ddisgrifir ar dudalen 22 o ddogfen ymgynghori 2023 ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim) gan fod y dull a ddefnyddir i ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon eisoes yn seiliedig ar sampl llawer llai, gyda data sy'n adlewyrchu diwydiannau'r DU yn well na'r Rhestr Dadleoli Carbon bresennol.



Ffigur 6: Meini prawf cymhwysra'r Rhestr Dadleoli Carbon – pennir llinell gwerth y trothwy lle y mae dwysedd masnachu * dwysedd allyriadau ≥ 0.14

Mae'r graff uchod yn darlunio trothwy'r gwerthoedd Dangosydd Dadleoli Carbon sy'n pennu'r Rhestr Dadleoli Carbon. Mae'r plot yn dangos a yw diwydiant uwchlaw trothwy'r Rhestr Dadleoli Carbon (0.14) ar gyfer gwerth dwysedd allyriadau (echelin-y) a dwysedd masnachu (echelin-x) penodol.

Er enghraifft, yn achos 'gweithgynhyrchu teiars a thiwbiau rwber', mae'r dwysedd allyriadau wedi'i luosi â'r dwysedd masnachu (0.52 * 0.75) yn hafal i Ddangosydd Dadleoli Carbon o 0.39 (uwchlaw'r trothwy) ac mae'r diwydiant yn ymuno â'r Rhestr. Yn achos 'gweithgynhyrchu cydrannau electronig', mae'r dwysedd allyriadau (0.15) wedi'i luosi â'r dwysedd masnachu (0.80) yn hafal i Ddangosydd Dadleoli Carbon o 0.12 (islaw'r trothwy) ac nid yw'r sector ar y Rhestr.

	Dwysedd allyriadau	Dwysedd masnachu	Dangosydd Dadleoli Carbon
Gweithgynhyrchu teiars rwber	0.52	0.75	0.39
Gweithgynhyrchu ffibrau gwyr	0.64	0.59	0.38
Gweithgynhyrchu cydrannau electronig	0.15	0.80	0.12

Ffigur 7: Data enghreifftiol ar gyfer tri diwydiant

Ar gyfer sectorau y mae eu Dangosydd Dadleoli Carbon wedi'i bennu ar sail dwysedd allyriadau uniongyrchol wrth gefn, a chanddo werth uwch ar gyfartaledd, rydym yn cynnig defnyddio trothwy o 0.74. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn adran 5.2 o Adroddiad Technegol NERA. Fe'i cyfrifwyd ar sail opsiwn A a gyflwynir uchod ac fe'i croeswiriwyd yn erbyn opsiwn B.

Bwriedir i'r opsiwn a ffeirir gadw cyfran debyg o ddiwydiannau ar y Rhestr Dadleoli Carbon, fel y disgrifir yn opsiwn A. Fodd bynnag, o fewn y dadansoddiad, ceir gwahaniaeth amlwg rhwng sectorau sy'n defnyddio gwahanol ddulliau i gyfrifo dwysedd eu hallyriadau uniongyrchol. Nid oes gan unrhyw sectorau nad ydynt ond yn ymddangos ar lefel is-weithfa yn ETS y DU unrhyw ddata cofnodedig am eu hallyriadau, ac felly maent yn defnyddio'r newidyn wrth gefn. Mae hyn yn effeithio ar is-set o sectorau, ond mae'n ffynhonnell bosibl o duedd. Felly, mae'r Awdurdod yn cynnig defnyddio trothwy ar wahân o 0.74 ar gyfer sectorau sy'n defnyddio dwyseddau allyriadau uniongyrchol wrth gefn.

3. A ydych yn cytuno â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddiweddarau gwerthoedd trothwy'r Rhestr Dadleoli Carbon, h.y. 0.14 a 0.74, a bennwyd ar sail Opsiwn A a ddisgrifir uchod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch fethodoleg amgen.

Y Rhestr Dadleoli Carbon

Ar sail y ffynonellau data wedi'u diweddarau a'r ystyriaethau fformiwla y manylir arnynt yn yr adrannau uchod, isod ceir rhestr ragarweiniol o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon y mae'r Awdurdod yn gofyn am sylwadau arni. Gan nodi'r bylchau data a'r dulliau wrth gefn a ddisgrifir yn yr adrannau uchod, nid oes gan yr Awdurdod opsiwn a ffeirir ar hyn o bryd o ran a ddylid cadw'r Rhestr Dadleoli Carbon bresennol neu'i diweddarau ar sail data'r DU.

Os bydd yr Awdurdod yn penderfynu diweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon, ein bwriad o hyd fydd dwyn ymlaen y dyddiad dirwyn i ben ar gyfer sectorau nad ydynt mewn perygl o ddadleoli carbon, yn unol ag amcan yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim i dargedu cymorth yn well at y sectorau sydd fwyaf mewn perygl. Felly, yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig na fydd unrhyw sectorau nad oes ganddynt Ddangosydd Dadleoli Carbon o 0.14 neu uwch (ar gyfer sectorau y defnyddir dull o'r gwaelod i fyny i gyfrifo dwysedd eu hallyriadau uniongyrchol) neu 0.74 (ar gyfer sectorau sy'n defnyddio dull wrth gefn) yn gymwys i gael dyraniadau am ddim ar gyfer y cyfnod dyrannu nesaf. Penderfynir a yw sectorau â Dangosydd Dadleoli Carbon o 0.14 neu 0.74 ac uwch yn gymwys i gael dyraniadau am ddim fel rhan o'r penderfyniadau ynghylch rhannu sectorau yn haenau a wneir yn ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim y bwriedir ei gyhoeddi erbyn diwedd 2025.

Rydym yn gofyn i gyfranogwyr a grwpiau eraill â diddordeb roi eu barn ynghylch y rhestr ragarweiniol o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon. Yn benodol, hoffem glywed ai'r dull a ddefnyddiwyd gennym i gyfrifo Dangosyddion Dadleoli Carbon yw'r dull cywir, gan gynnwys y setiau data a ddefnyddiwyd, a hoffem gael sylwadau ar ein dull o ddiweddarau'r trothwy i bennu'r sectorau sy'n gymwys i gael dyraniadau am ddim. Rydym hefyd yn gwahodd cyfranogwyr i gyflwyno unrhyw ddata yr ydym wedi pennu bylchau ynddynt, yn yr adrannau uchod ac yn yr adroddiad technegol, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol. Rhaid i'r data a gyflwynir gyrraedd trothwy uchel drwy fodloni'r holl ofynion a amlinellir yn y meini prawf asesu lluosog i'w cynnwys yng nghyfrifiad y Dangosyddion Dadleoli Carbon. Rydym yn annog cyfranogwyr i egluro sut y mae'r data a gyflwynir yn bodloni'r meini prawf a, phan ddefnyddir dystiolaeth ategol arall, dylid egluro'n benodol pam y dylai'r Awdurdod ei hystyried.

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

Os cyflwynir unrhyw ddata newydd sy'n newid y sefyllfa o ran y Rhestr Dadleoli Carbon, drwy i sectorau ychwanegol gael eu dosbarthu fel rhai sydd mewn perygl o ddadleoli carbon, mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio dull 'ychwanegol' o ran nifer y sectorau ar y Rhestr Dadleoli Carbon. Bydd y dull 'ychwanegol' hwn yn peri bod mwy o sectorau yn ymuno â'r rhestr os bydd gwybodaeth newydd yn cael ei darparu a bod yr Awdurdod yn cytuno y dylid ystyried y sectorau hyn fel rhai sydd mewn perygl o ddadleoli carbon. O ran y sectorau sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Dadleoli Carbon ragarweiniol ar y sail bod eu Dangosyddion Dadleoli Carbon yn hafal i'r trothwyon o 0.14 neu 0.74 neu'n uwch na'r trothwyon hynny, os mai'r rhain fydd y trothwyon o hyd a'u bod yn parhau i'w bodloni, nid yw'n debygol y byddant yn cael eu dileu o'r Rhestr, ar yr amod mai dim ond nifer gyfyngedig o sectorau ychwanegol sy'n cael eu hychwanegu ati. Mae'r rhestr isod yn nodi'r sectorau sydd uwchlaw'r trothwy mewn print trwm. Mae'r Dangosyddion Dadleoli Carbon a ddefnyddir ar hyn o bryd hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl at ddibenion cymharu.

Cod SIC	Diwydiant	Dangosydd Dadleoli Carbon y DU wedi'i ddiweddarau	Dangosydd Dadleoli Carbon yr UE
23.51	Gweithgynhyrchu sment	25.26	2.46
24.1	Gweithgynhyrchu haearn a dur sylfaenol a ffero-aloeon	8.99	2.12
20.14	Gweithgynhyrchu cemegion sylfaenol organig eraill	5.82	1.05
19.1	Gweithgynhyrchu cynhyrchion ffwrn golosg*	4.83	20.12
23.52	Gweithgynhyrchu calch a phlastr	4.08	1.02
24.42	Cynhyrchu alwminiwm	3.26	1.63
10.42	Gweithgynhyrchu margarin a brasterau bwydadwy tebyg*	3.25	0.03
19.2	Gweithgynhyrchu cynhyrchion petrolewm wedi'i buro	2.35	3.22
17.11	Gweithgynhyrchu mwydion pren*	2.08	0.99
23.31	Gweithgynhyrchu teils a cherrig llorio serameg	2.02	1.05
20.15	Gweithgynhyrchu gwrtaitaith a chyfansoddion nitrogen	1.83	2.42
20.6	Gweithgynhyrchu ffibrau gwneud*	1.58	0.41

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

20.17	Gweithgynhyrchu rwber synthetig ar ei ffurf sylfaenol*	1.58	0.60
10.41	Gweithgynhyrchu olewon a brasterau	1.55	0.42
7.1	Mwyngloddio mwynau haearn*	1.52	2.54
10.62	Gweithgynhyrchu startsh a chynnyrch startsh	1.29	0.52
6.2	Echdynnu nwyon naturiol*	1.14	0.12
6.1	Echdynnu petrolewm crai	0.90	0.24
10.32	Gweithgynhyrchu sudd ffrwythau a llysiau*	0.89	0.09
23.12	Siapio a phrosesu gwydr gwastad*	0.74	0.07
17.12	Gweithgynhyrchu papur a bwrdd papur	0.74	0.84
23.11	Gweithgynhyrchu gwydr gwastad	0.70	1.46
23.13	Gweithgynhyrchu gwydr cau	0.66	0.63
8.99	Gweithgareddau mwyngloddio a chwarela eraill n.dd.b*	0.63	3.82
20.13	Gweithgynhyrchu cemegion sylfaenol anorganig eraill	0.55	1.64
20.12	Gweithgynhyrchu lifynnau a phigmentau	0.54	0.52
23.99	Gweithgynhyrchu cynhyrchion mwynau anfetelaidd eraill n.dd.b.	0.53	0.22
8.91	Mwyngloddio mwynau cemegol a gwrteithio*	0.53	0.26
21.1	Gweithgynhyrchu cynhyrchion fferyllol sylfaenol	0.48	0.19
16.1	Llifio a phlaenio pren*	0.41	0.07
22.11	Gweithgynhyrchu teiars a thiwbiau rwber; adfer ac ailwampio teiars rwber	0.39	0.12
23.14	Gweithgynhyrchu ffibrau gwydr	0.38	0.42

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

24.45	Mwyngloddio mwynau metel anfferrus eraill	0.32	0.28
20.16	Gweithgynhyrchu plastig ar ei ffurf sylfaenol	0.29	0.31
16.21	Gweithgynhyrchu dalenni argaen a phaneli o bren	0.27	0.26
10.2	Prosesu a chyffeithio pysgod, cramenogion a molysgiaid*	0.26	0.07
17.29	Gweithgynhyrchu eitemau eraill o bapur a bwrdd papur*	0.26	0.02
8.93	Echdynnu halen	0.26	0.15
20.53	Gweithgynhyrchu olewon naws*	0.26	0.05
24.52	Bwrw dur*	0.25	0.02
24.46	Prosesu tanwydd niwclear*	0.24	0.22
11.06	Gweithgynhyrchu brag	0.22	0.33
20.59	Gweithgynhyrchu cynhyrchion cemegol eraill n.dd.b.	0.20	0.15
20.2	Gweithgynhyrchu plaladdwyr a chynnyrch agrochemegol arall	0.20	0.09
24.2	Gweithgynhyrchu tiwbiau, pibellau, proffiliau gwag a gosodiadau cysylltiedig, o ddur	0.16	0.23
17.21	Gweithgynhyrchu papur rhychiog a bwrdd papur, a chynwysyddion papur a bwrdd papur*	0.15	0.01
20.42	Gweithgynhyrchu persawrau a chymysgeddau ymolchi*	0.15	0.04
10.82	Gweithgynhyrchu melysion coco, siocled a siwgr	0.14	0.03
11.01	Distyllu, puro a chymysgu gwirodydd	0.14	0.07
26.11	Gweithgynhyrchu cydrannau electronig	0.12	0.15

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

10.39	Prosesu a chyffeithio ffrwythau a llysiau at ddibenion eraill	0.12	0.08
10.61	Melino grawn	0.12	0.04
20.11	Gweithgynhyrchu nwyon diwydiannol	0.11	1.02
10.51	Gweithredu hufenfeydd a gwneud caws	0.09	0.04
23.32	Gweithgynhyrchu brics, teils a chynhyrchion adeiladu clai cras	0.09	0.14
30.3	Gweithgynhyrchu peiriannau awyr a llongau gofod a'r peiriannau cysylltiedig	0.09	0.07
10.81	Gweithgynhyrchu siwgr*	0.09	0.63
10.83	Prosesu te a choffi	0.09	0.04
10.13	Cynhyrchu cynhyrchion cig a dofednod	0.09	0.01
13.3	Gorffennu tecstilau	0.08	0.18
22.21	Gweithgynhyrchu platiau, dalenni, tiwbiau a phroffiliau plastig	0.07	0.08
10.85	Gweithgynhyrchu prydau a seigiau parod*	0.07	0.05
10.84	Gweithgynhyrchu confennau a sesnin	0.06	0.02
11.05	Gweithgynhyrchu cwrw	0.06	0.02
10.89	Gweithgynhyrchu cynnyrch bwyd arall n.dd.b.	0.06	0.04
10.31	Prosesu a chyffeithio tatws	0.05	0.08
10.12	Prosesu a chyffeithio cig dofednod*	0.05	0.02
23.2	Gweithgynhyrchu cynhyrchion gwrthsafol	0.04	0.41

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

8.12	Gweithredu pyllau graean a thywod; mwyngloddio clai a chaolin	0.04	0.01
10.92	Gweithgynhyrchu bwydydd parod ar gyfer anifeiliaid anwes	0.03	0.02
11.03	Gweithgynhyrchu seidr a mathau eraill o winoedd ffrwyth	0.03	0.01
29.1	Gweithgynhyrchu cerbydau modur	0.02	0.03
21.2	Gweithgynhyrchu cymysgeddau fferyllol	0.02	0.05
25.4	Gweithgynhyrchu arfau a ffrwydron rhyfel	0.02	0.07
8.11	Chwarela cerrig addurnol a cherrig adeiladu, calchfaen, gypswm, sialc a llechi	0.02	0.14
30.11	Adeiladu llongau a strwythurau sy'n arnofio	0.02	0.08
11.07	Gweithgynhyrchu diodydd ysgafn; cynhyrchu dŵr mwynol a dŵr potel arall	0.01	0.01
20.41	Gweithgynhyrchu sebon a glanedyddion, cymysgeddau glanhau a gloywi	0.01	0.03
23.62	Gweithgynhyrchu cynhyrchion plastr at ddibenion adeiladu	0.00	0.05
25.5	Gofannu, gwasgu, stampio a rhoio metel; meteleg powdr*	0.00	0.11
33.16	Atgyweirio a chynnal awyrennau a llongau awyr	0.00	0.00

Ffigur 8: Sectorau sydd uwchlaw'r trothwy dadleoli carbon arfaethedig (ffynhonnell: Dadansoddiad NERA)

***Sectorau y defnyddir dull wrth gefn i gyfrifo dwysedd eu hallyriadau uniongyrchol ac a fyddai, o'r herwydd, yn destun trothwy o 0.74**

At ddibenion cymharu, mae'r rhestr Dangosyddion Dadleoli Carbon bresennol ar gael [yma](#).

4. A ydych yn cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon?

- 5. Os nad ydych yn cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch unrhyw ddata ychwanegol (sy'n bodloni'r meini prawf asesu). Os nad ydych yn cytuno a'ch bod am gynnig methodoleg neu set ddata amgen nad yw'n bodloni'r meini prawf asesu, eglurwch pam y dylid defnyddio'r data hyn.**
- 6. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod i ddefnyddio dull 'ychwanegol' o ran y Rhestr Dadleoli Carbon os bydd data newydd yn cael eu darparu drwy'r ymgynghoriad hwn sy'n newid gwerthoedd presennol y Dangosydd Dadleoli Carbon? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch ddull amgen.**
- 7. A oes unrhyw ffeithiau neu faterion eraill y byddech yn hoffi i'r Awdurdod eu hystyried cyn penderfynu'n derfynol ar y Rhestr Dadleoli Carbon?**
- 8. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir yn y bennod hon, a ydych yn credu y dylem ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon er mwyn iddi fod yn seiliedig ar ddata'r DU neu a fyddai'n well gennych barhau i ddefnyddio'r Rhestr Dadleoli Carbon bresennol? Eglurwch eich ateb.**

Pennod 2: Dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM

Cefndir

Yn 2023, bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar amrywiaeth o fecanweithiau polisi posibl i liniaru'r risg o ddadleoli carbon ac i greu'r amgylchedd iawn er mwyn i ddiwydiannau'r DU ddatgarboneiddio. Ymhlith y mecanweithiau a ystyriwyd roedd mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau (CBAM) a safonau cynnyrch gorfodol, ochr yn ochr â mesurau polisi eraill i dyfu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion carbon isel.

Mae dadleoli carbon yn cyfeirio at symud allyriadau cynhyrchu ac allyriadau cysylltiedig o'r naill wlad i'r llall oherwydd y gwahaniaeth rhwng ymdrechion gwahanol wledydd i ddatgarboneiddio drwy gynlluniau prisio carbon a rheoleiddio'r hinsawdd. Gall dadleoli carbon danseilio amcan yr ymdrechion i ddatgarboneiddio, sef lleihau allyriadau byd-eang. Un o'r ffyrdd y gall prisio carbon arwain at ddadleoli carbon yw y gall busnes wynebu costau uwch na chynhyrchwyr mewn awdurdodaethau eraill, gan beri i gynhyrchu domestig a'r allyriadau cysylltiedig leihau a pheri iddynt ehangu rywle arall. Pe bai pob gwlad yn wynebu'r un pris carbon, ni fyddai prisio carbon yn arwain at risg o ddadleoli carbon, oherwydd byddai pob cynhyrchydd yn ysgwyddo'r un costau fesul tonnell o garbon sy'n gysylltiedig â'i brosesau cynhyrchu.

Mae'r polisi dyraniadau am ddim o dan ETS y DU yn mynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon drwy leihau effaith y pris carbon ar gwmnïau. Cyfrifir a yw cwmni'n gymwys i gael dyraniadau am ddim ar sail ei ddwysedd masnachu a dwysedd ei allyriadau (gweler Pennod 1). Po fwyaf dwys y mae cynnyrch yn cael ei fasnachu, y mwyaf tebygol ydyw o wynebu risg o ddadleoli carbon, yn enwedig os yw'n cystadlu â chwmnïau mewn awdurdodaethau eraill nad oes raid iddynt ystyried pris carbon fel rhan o'u proses gynhyrchu. Po fwyaf dwys yw proses gynhyrchu oran ei hallyriadau, y mwyaf yw effaith pris carbon ar gwmni, a'r mwyaf tebygol ydyw y byddhyn yn cyfrannu at greu risg o ddadleoli carbon.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd CBAM y DU yn cael ei gyflwyno erbyn 2027. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch cyflwyno CBAM y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, bydd y CBAM yn sicrhau bod nwyddau carbon-ddwys a fasnachir yn helaeth o dramor yn wynebu pris carbon tebyg i'r rheini a gynhyrchir yn y DU. Ar 30 Hydref 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb i'r ymgynghoriad ar roi CBAM y DU ar waith, gan gadarnhau pa sectorau y bydd y CBAM yn eu cwmpasu³⁴. Bydd y CBAM yn gymwys i'r allyriadau sydd wedi'u hymgorffori mewn nwyddau penodedig a fewnforir yn y sectorau a ganlyn: alwminiwm, sment, gwrteithiau, hydrogen, a haearn a dur. Bydd y CBAM yn lliniaru'r risg o ddadleoli carbon drwy gymhwyso pris carbon i gynhyrchion sy'n cael eu mewnfario i'r DU i sicrhau eu bod yn destun cost garbon debyg i'r gost y bydd nwyddau a gynhyrchir yn y DU yn ei hwynebu. Pan fu iddi bennu'r sectorau y bydd CBAM y DU yn eu cwmpasu, bu'r Llywodraeth yn ystyried tri ffactor allweddol:

- Ystyried cyflwyno CBAM dim ond ar gyfer cynhyrchion mewn sectorau sy'n destun ETS y DU, sef prif fecanwaith prisio carbon y DU;

³⁴https://assets.publishing.service.gov.uk/media/672123813aa14203d06ef447/Consultation_on_the_introduction_of_a_UK_Carbon_Border_Adjustment_Mechanism.pdf

- Ystyried sectorau sydd mewn perygl mawr o ddadleoli carbon;
- Ystyried dichonoldeb ac effeithiolrwydd cyflwyno CBAM erbyn 2027 ar gyfer sectorau penodol.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion o ran dyluniad manwl CBAM y DU a sut i'w roi ar waith a'i weinyddu.

Y cynigion a geir yn y bennod hon

Gan fod Llywodraeth y DU bellach wedi ymrwmo i gyflwyno CBAM, mae'r Awdurdod yn ystyried sut y byddai modd addasu'r polisi dyraniadau am ddim i adlewyrchu'r gostyngiad yn y risg y bydd sectorau penodol yn dadleoli carbon ac i gynyddu effeithiolrwydd y CBAM fel polisi sy'n lliniaru'r risg o ddadleoli carbon.

Mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM ac yn gofyn cwestiynau o ran sut y dylid mynd ati i'w haddasu, gan gynnwys:

- Paramedrau'r addasiad;
- Hyd a lled yr addasiad, h.y. lleihau'r dyraniadau i sero neu'u lleihau'n rhannol;
- Rhoi'r addasiad ar waith yn dechnegol;
- Y meini prawf asesu y dylai'r Awdurdod eu hystyried pan fydd yn penderfynu'n derfynol ar yr addasiad.

Bydd unrhyw newidiadau i'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb ehangach i'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim erbyn diwedd 2025, a byddant yn cael eu rhoi ar waith ar ddechrau'r cyfnod dyrannu nesaf yn 2027.

Crynodeb o gynigion ymgynghori'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cynigion o ran addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim, y cwestiynau a ofynnwyd, a'r ymatebion a ddaeth i law gan randdeiliaid. Rydym yn cynnwys yr wybodaeth hon yma gan ei bod wedi gosod sail ar gyfer y cynigion polisi a gyflwynir yng ngweddill y ddogfen ymgynghori hon.

Roedd yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim yn gofyn i randdeiliaid roi eu barn ynghylch yr opsiynau y dylai Awdurdod ETS y DU eu pwysu a'u mesur yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno CBAM.

Cwestiynau ymgynghori Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim 2023

1. *A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar y rhyngweithio rhwng mesurau lliniaru dadleoli carbon eraill a CBAM a/neu'r senarios polisi cyffredinol y dylai Awdurdod ETS y DU eu harchwilio yn y dyfodol, o ystyried bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno CBAM?*

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 62 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roeddent yn trafod ystod eang o themâu.

O blaid dirwyn dyraniadau am ddim i ben:

Dywedodd 36 o'r ymatebwyr ar draws sectorau diwydiannol, y sectorau ynni a chyrrff anllywodraethol y dylid dirwyn dyraniadau am ddim i ben, gan roi'r manylion a ganlyn:

- Dywedodd 11 y dylem oedi cyn dirwyn dyraniadau am ddim i ben hyd nes ei fod wedi ei brofi bod y CBAM yn gweithio'n effeithiol;
- Dywedodd saith y dylid ailgyflwyno dyraniadau am ddim yn awtomatig os nad yw'r CBAM yn effeithiol o'i brofi yn erbyn meini prawf llym;
- Dywedodd chwech y dylid dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn raddol i reoli'r cyfnod pontio;
- Dywedodd pum ymatebydd o gyrff anllywodraethol a'r sectorau ynni y dylid dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn gyflym i sicrhau nad ydynt yn lleihau effeithiolrwydd CBAM y DU;
- Dywedodd tri y dylid dilyn yr un trywydd â'r UE i ddirwyn dyraniadau am ddim i ben (er i rai o'r ymatebwyr hyn ddatgan y dylid gwneud hyn ar ôl gohirio dyddiad cychwyn y broses o'u dirwyn i ben);
- Dywedodd tri y byddai hyn yn dileu ystumiad yn y farchnad;
- Dywedodd un y byddai dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn cefnogi'r nodau datgarboneiddio.

O blaid cadw dyraniadau am ddim:

Dywedodd naw o'r ymatebwyr fod rhaid parhau i ddarparu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau na chyflwynir CBAM ar eu cyfer.

Bu i chwe ymatebydd grybwyll bod allforion yn ffactor pwysig, gyda phedwar yn datgan y dylid ystyried yr effaith ar y risg o ddadleoli allforion, a dau yn datgan yn benodol y dylid parhau i ddarparu dyraniadau am ddim ar gyfer allforion.

Pwyntiau eraill a wnaed:

Ymhlith y themâu pwysig eraill a godwyd, bu i wyth ymatebydd grybwyll yr angen am i newidiadau i'r drefn dyraniadau am ddim fod yn rhan o asesiad neu strategaeth dadleoli carbon ehangach, bu i bedwar grybwyll bod cysylltu ETS y DU ac ETS yr UE yn ystyriaeth bwysig, a bu i dri dynnu sylw at bryderon o ran newid y drefn dyraniadau am ddim yn 2026, heb fod hynny'n cyd-daro â dyddiad cyflwyno CBAM y DU yn 2027.

Pwyntiau eraill a godwyd gan un neu ddau ymatebydd yr un oedd yr angen i ystyried diogeledd ynni ar gyfer sectorau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan CBAM, y dylai'r llywodraeth barhau i ddarparu mathau eraill o gymorth ar gyfer sectorau anodd eu datgarboneiddio, na ddylai newidiadau i'r drefn dyraniadau am ddim ddatgymell sectorau sydd wedi gwella eu heffeithlonrwydd, y dylai dyraniadau am ddim gadw'r ddysgl yn wastad rhwng lleihau allyriadau a chystadleurwydd heb ystumio signalau'r farchnad, a bod angen eglurder o ran yr hyn a fydd

yn digwydd i unrhyw ddyraniadau am ddim a fydd yn cael eu diddymu ac a ddylid eu cadw mewn cronfeydd wrth gefn neu'u hychwanegu at y gyfran a arwerthir.

Y pwyntiau penodol a wnaed ynghylch y CBAM oedd yr angen i roi diweddariadau amlach i'r sectorau y bydd y CBAM yn eu cwmpasu ar sail eu risg o ddadleoli carbon, yr angen i ystyried sut y bydd allyriadau anuniongyrchol yn cael eu trin o dan y CBAM, yr angen i wirio'r CBAM i sicrhau ei fod yn gyson â phroses yr ETS, a'r angen am i'r meini prawf i gael amddiffyniad drwy ddyraniadau am ddim fod yn gyson â meini prawf y CBAM.

Addasu dyraniadau am ddim sectorau CBAM

Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM, mae'r Awdurdod wedi ystyried dau opsiwn:

Opsiwn 1: Gwneud dim (gwrthffeithiol)

Ni fyddai'r senario 'gwneud dim' yn newid dyraniadau am ddim sectorau CBAM o gwbl. Felly, byddai'r dyraniadau am ddim yn cael eu cyfrifo ar sail debyg i'r fethodoleg dyraniadau am ddim bresennol ar gyfer gweithfeydd (gan gynnwys unrhyw newidiadau eraill ar wahân a wneir drwy'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim), ond heb gyflwyno unrhyw driniaeth neu addasiad ychwanegol ar gyfer diwydiannau y bydd y CBAM yn eu cwmpasu.

Y sawl sy'n mewnfurio cynhyrchion sydd o fewn cwmpas CBAM y DU fydd yn ysgwyddo atebolrwydd o dan CBAM y DU, a hynny ar sail yr allyriadau sydd wedi'u hymgorffori yn y nwyddau a fewnforir. Ni fydd prynu na masnachu tystysgrifau allyriadau yn rhan o'r drefn hon. Bydd yr atebolrwydd a gymhwysir gan y CBAM yn dibynnu ar ddwysedd allyriadau nwyon tŷ gwydr y nwydd a fewnforir a'r bwlch rhwng y pris carbon a gymhwysir yn y wlad tarddiad (os o gwbl) a'r pris carbon a fyddai wedi'i gymhwyso pe bai'r nwydd wedi'i gynhyrchu yn y DU.

O ran nwyddau a gynhyrchir yn y DU, er bod gweithredwyr yn wynebu pris carbon, caiff effaith y gost hon ei lleihau drwy ddosbarthu dyraniadau am ddim. Felly, i adlewyrchu'r pris gwirioneddol a wynebir gan fusnesau o ran allyriadau carbon, ac i sicrhau cysondeb ar draws cynhyrchwyr mewn gwahanol wledydd, bydd CBAM y DU yn cymhwyso pris carbon gwirioneddol i fewnforion a fydd yn sylweddol is na'r prif bris a bennir yn ETS y DU er mwyn iddo adlewyrchu'r lwfansau a ddarperir am ddim yn ddomestig³⁵.

Byddai pris carbon gwirioneddol y DU yn cael ei addasu yn ôl y graddau y mae'r dyraniadau am ddim yn cwmpasu allyriadau uniongyrchol y diwydiant hwnnw.³⁶ Y pris gwirioneddol hwn fyddai pris carbon CBAM y DU, sef y pris a fyddai'n cael ei godi am yr allyriadau sydd wedi'u hymgorffori mewn cynhyrchion a fewnforir.

Os na chaiff dyraniadau am ddim sectorau CBAM eu haddasu, mae'n debygol y bydd y prisiau carbon gwirioneddol a wynebir gan y sectorau hyn yn parhau i fod yn uchel. Felly, o beidio ag addasu'r dyraniadau am ddim, byddai effeithiolrwydd yr ETS yn lleihau ac ni fyddai'r CBAM yn ddull effeithiol o liniaru'r risg o ddadleoli carbon.

Er bod dyraniadau am ddim yn ddull effeithiol o liniaru dadleoli carbon, oherwydd eu bod yn cael eu cyfrifo ar sail lefelau gweithgarwch hanesyddol a meincnod nad yw'n uniongyrchol

³⁵ Ceir eglurhad manylach o'r ffordd y bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn Atodiad Dadansoddol y ddogfen ymgynghori hon.

³⁶ Ni chafodd yr union fethodoleg ei phennu hyd yma.

gysylltiedig â'r graddau y gall cwmni fod yn uniongyrchol agored i ddadleoli carbon, gall fod gwahaniaeth mawr rhwng cyfradd y cymorth a ddarperir i weithfeydd a'r gyfradd gyfanredol ar gyfer y sector. Mae dyraniadau am ddim ar lefel gweithfa'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y fethodoleg, ac mae cyfraddau cymorth unigol uwchlaw 100% yn bosibl. Mae sail resymegol y drefn dyraniadau am ddim yn dal i fod yn briodol, gan ei bod yn rhoi sicrwydd i gyfranogwr diwydiannol dros gyfnod dyrannu, gan roi cyfle iddo ragamcanu effaith y pris carbon arno a'i gymell i ddatgarboneiddio, fel rhan o amcan ehangach yr ETS.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu mai hwn o reidrwydd yw'r polisi lliniaru dadleoli carbon mwyaf effeithiol ym mhob sefyllfa. Gallai CBAM fod yn ddull mwy priodol o liniaru dadleoli carbon na dyraniadau am ddim yn y sefyllfaoedd hyn.

Byddai angen gwneud gwaith dadansoddi pellach hefyd i sicrhau bod modd rhoi polisi ar waith nad yw'n newid y drefn dyraniadau am ddim o gwbl tra mae CBAM ar waith yn unol â rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a rhwymedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â masnach³⁷.

Am y rhesymau hyn, nid yw'n fwriad gan yr Awdurdod roi'r opsiwn 'gwneud dim' ar waith ar y sail bod angen mynd ati i addasu dyraniadau am ddim er mwyn i CBAM ac ETS y DU weithredu'n effeithiol i gynyddu'r cymhellion i leihau allyriadau yn y DU ac yn fyd-eang.

9. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod i beidio â rhoi'r opsiwn 'gwneud dim' ar waith? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny.

Opsiwn 2: Addasu dyraniadau am ddim sectorau CBAM (bwriad yr Awdurdod)

Y dewis amgen fyddai addasu'r dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau y mae'r CBAM yn eu cwmpasu. Byddai hyn yn sicrhau bod modd i'r CBAM fod yn effeithiol, a byddai'n cynyddu effeithiolrwydd cymhelliad ETS y DU i ddatgarboneiddio.

Ar y sail hon, mae'n fwriad gan yr Awdurdod i addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM. Yr opsiynau sy'n weddill i'w pwysu a'u mesur yw sut y dylid mynd ati i'w haddasu. Gellir ystyried yr opsiynau hyn ar sail y paramedrau ar gyfer addasu dyraniadau am ddim, y graddau y bydd yr addasiad yn cael ei gymhwyso, a sut y caiff ei roi ar waith yn dechnegol. Bydd yr Awdurdod yn pwysu a mesur yr opsiynau hyn drwy'r bennod hon, ac mae'n gofyn am sylwadau ar ba gyfuniad o'r opsiynau a ffefrir, ynghyd â sut y dylid pwysoli'r meini prawf asesu i asesu'r opsiynau hyn.

Paramedrau'r addasiad

Pan fyddwn yn addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM, gallwn amrywio'r paramedrau a ganlyn:

- Y flwyddyn y bydd yr addasiad yn cychwyn;
- Hyd yr addasiad / y flwyddyn y bydd yn dod i ben;
- Trywydd yr addasiad.

Gellir cymhwyso'r rhain yn yr un modd i bob un o'r sectorau a gwmpesir gan y CBAM neu gellir eu hamrywio yn ôl sector.

³⁷ https://www.wto.org/english/thewto_e/whatis_e/tif_e/fact2_e.htm

Rydym yn cynnig addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM yn raddol dros gyfnod. Drwy gyflwyno CBAM y DU, cyflwynir polisi newydd, a gall fod iddo effeithiau sylweddol. Drwy addasu dyraniadau am ddim y sectorau a gwmpesir gan y CBAM yn raddol, bwriedir cefnogi'r broses o roi'r polisi ar waith a lleihau'r risgiau i ddiwydiant. O ddiddymu'r dyraniadau am ddim ar unwaith, ceir perygl o gyflwyno newid sydyn i gymhellion a chostau'r busnesau yr effeithir arnynt, gan beri eu bod yn llai parod ar eu cyfer a bod perygl o effeithiau andwyol. Felly, nid ydym yn ystyried diddymu dyraniadau am ddim ar unwaith yma. O'u diddymu'n raddol, bydd yn gyfle i fusnesau a'r Llywodraeth addasu, a bydd yn caniatáu i effaith y CBAM gynyddu dros gyfnod.

Y flwyddyn y bydd yr addasiad yn cychwyn

Ni ddylai unrhyw addasiad gychwyn cyn 2027 oherwydd ni fydd y CBAM mewn grym cyn y dyddiad hwn. Felly, o ystyried unrhyw ddyddiad cynharach, byddai'n arwain at leihau hyd a lled y mesurau i liniaru dadleoli carbon a ddarperir i rai o sectorau ETS y DU. Ni fwriedir i'r camau i addasu dyraniadau am ddim wneud hyn, felly ni fydd yr Awdurdod yn mynd ati i addasu dyraniadau am ddim cyn cyflwyno CBAM y DU.

Drwy'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim a gynhaliwyd yn 2023, galwodd rhai ymatebwyr am oedi cyn addasu dyraniadau am ddim i sicrhau bod y CBAM yn gweithredu'n llwyr cyn mynd ati i leihau'r cymorth dadleoli carbon. Dylid cydbwysu'r ystyriaeth hon â'r effaith ar effeithiolrwydd ETS a CBAM y DU, oherwydd bydd unrhyw oedi cyn addasu dyraniadau am ddim yn lleihau eu heffeithiolrwydd.

Nid yw'r Awdurdod o blaid unrhyw opsiwn penodol o ran amseriad yr addasiad ac mae'n gofyn am sylwadau drwy'r ymgynghoriad hwn ynghylch y dull a ffeirir. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar ddyluniad y CBAM, gan ystyried sut y caiff y pris carbon gwirioneddol ei gyfrifo. Os bydd hyn yn seiliedig ar ddyraniadau am ddim hanesyddol, gall fod yn briodol oedi cyn cychwyn y cyfnod dirwyn i ben i gyfrif am hyn.

Hyd yr addasiad / y flwyddyn y bydd yn dod i ben

Blwyddyn derfyn yr addasiad fydd yn pennu ei hyd. Mae'r Awdurdod yn ystyried targedu cyfnod addasu 10 mlynedd o hyd, neu gyfnod addasu byrrach, i sicrhau bod dyraniadau am ddim yn lleihau'n raddol tra mae'r CBAM yn cael ei gyflwyno, gan beri bod y mesurau i liniaru'r risg o ddadleoli carbon yn lleihau cyn lleied â phosibl.

Galwodd rhai o'r ymatebwyr i'r Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim a gynhaliwyd yn 2023 am i ddyraniadau am ddim gael eu haddasu mewn modd sy'n gyson â chynlluniau'r UE. O wneud hyn, byddai'r cyfnod addasu yn fyrrach, ond gallai fod iddo'r fantais o sicrhau bod cyfraddau'r mecanweithiau CBAM yn gyson â'i gilydd, gan leihau'r risg y bydd cynhyrchwyr y DU sy'n allforio i'r UE yn wynebu ffi CBAM drwy sicrhau bod y dulliau o liniaru dadleoli carbon yn cydweddu â'i gilydd yn gynharach. O addasu dyraniadau am ddim yn arafach na'r UE, gallai arwain at ddargyfeirio masnach yn anfwriadol neu at bris CBAM uwch yn yr UE i fusnesau'r DU sy'n allforio i'r UE. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn yr Atodiad Dadansoddol.


Trywydd yr addasiad

Mae'r Awdurdod yn ystyried tri opsiwn bras o ran cyflymder y broses o addasu dyraniadau am ddim – opsiwn llinol, opsiwn carlam sy'n arafu, neu opsiwn araf sy'n cyflymu. Nid yw'r opsiynau enghreifftiol hyn yn gyflawn ac nid yw'r Awdurdod yn dweud na fydd yn ystyried cromliniau addasu eraill.


Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Dull gweithredu o ran dadleoli carbon

A bwrw bod popeth arall yn gyfartal, mae dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn gyflymach (/yn fwy serth) yn cynyddu'r signal pris i'r sectorau a gwmpesir gan y CBAM, gan gynyddu'r cymhelliad i ddatgarboneiddio ac effeithiolrwydd CBAM y DU, yn ogystal â sicrhau bod y broses o ddirwyn dyraniadau am ddim i ben yn fwy cyson â phroses yr UE. Ar yr un pryd, gall dirwyn dyraniadau am ddim i ben yn gyflymach gynyddu'r risg o ddadleoli carbon yn y tymor byr, drwy diddymu'r cymorth cynhwysfawr a ddarperir drwy'r drefn dyraniadau am ddim yn gyflymach. O'u dirwyn i ben yn arafach (/yn fwy bas), bydd y gwrthwyneb yn digwydd: bydd effeithiolrwydd CBAM y DU a'r cymhellion i ddatgarboneiddio yn arafach, ond bydd cwmnïau'n cael eu hamddiffyn oherwydd bydd y dyraniadau am ddim yn cael eu diddymu'n fwy graddol. Dylai'r gromlin addasu a ffefrir gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr effeithiau ar y cwmnïau o dan sylw, yr effaith o ran dadleoli carbon, a'r effaith ar ETS y DU a'r llywodraeth.

Gellir defnyddio unrhyw gyfuniad o'r opsiynau a gyflwynir ar gyfer pob un o'r paramedrau; mae Atodiad Dadansoddol y ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys enghreifftiau o'r ffordd y byddai modd grwpio'r opsiynau hyn, ac mae'n darparu addasiad ansoddol ohonynt. Darperir y graffiau isod yn Adran 1 o'r Atodiad Dadansoddol ac maent yn darlunio cyfuniadau o'r opsiynau enghreifftiol hyn er mwyn addasu dyraniadau am ddim.



Ffigur 9: Rhoi'r addasiad i'r dyraniadau am ddim ar waith yn 2027



Ffigur 10: Opsiynau i roi'r addasiad i'r dyraniadau am ddim ar waith o'u cymharu ag addasiad yr UE

- 10. A ydych yn cytuno â pharmedrau'r addasiad fel y'u nodwyd gan yr Awdurdod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac unrhyw barmedrau eraill y dylid eu hystyried.**
- 11. A ydych yn ffafrio unrhyw opsiynau o ran y flwyddyn gychwyn, hyd yr addasiad neu'i drywydd? Eglurwch y rhesymau dros bob opsiwn yr ydych yn ei ffafrio.**
- 12. A ydych yn cytuno â'r sail resymegol a gyflwynwyd i'w hystyried ym mhob un o barmedrau'r addasiad? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac unrhyw ystyriaethau eraill y dylai'r Awdurdod roi sylw iddynt.**

Hyd a lled yr addasiad

Gellir ystyried hyd a lled yr addasiad mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf fyddai addasiad i sero, rhywbeth a fyddai'n gyfystyr â dirwyn dyraniadau am ddim i ben ar gyfer sectorau CBAM. Yr ail ffordd fyddai lleihau'r dyraniadau am ddim i gyfrif am y risg o ddadleoli carbon sy'n weddill nad yw'n cael ei chwmpasu gan y CBAM.

Gan mai dim ond mewnforion y bydd y CBAM yn eu cwmpasu, bydd allforion y DU yn dal i fod yn agored i'r risg o ddadleoli carbon a gallent wynebu canlyniadau pellach o ran cynhyrchion i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae'r Awdurdod yn ystyriol o'r risgiau posibl y tynnwyd sylw atynt o ran diogelu rhag dadleoli allforion³⁸ ac ni fydd ond yn ystyried newidiadau i'r dyraniadau am ddim a fydd yn gyson â rheolau Sefydliad Masnach y Byd a rhwymedigaethau perthnasol eraill yn y gyfraith masnach. Bydd angen dadansoddi'r mater ymhellach, ar ôl yr ymgynghoriad hwn, i benderfynu ar hyn.

³⁸ Ceir mwy o wybodaeth am ddadleoli allforion yn Atodiad Dadansoddol y ddogfen ymgynghori hon.

Fodd bynnag, pe bai modd parhau i ddarparu dyraniadau am ddim i gefnogi risg cwmnïau'r DU o ran dadleoli allforion a dadleoli allyriadau i lawr y gadwyn gyflenwi mewn ffordd sy'n gyson â rheolau Sefydliad Masnach y Byd a'r gyfraith masnach ehangach, mae'r Awdurdod wedi ystyried ymhle yn y fethodoleg y byddai modd cyfrif am hyn.

Cyfrifwyd dyraniadau am ddim ar sail lefelau gweithgarwch hanesyddol, meincnodau a'r risg o ddadleoli carbon (drwy'r Ffactor Agored i Ddadleoli Carbon, neu CLEF). Yn y cyfrifiad hwn, mae lefel y gweithgarwch hanesyddol yn seiliedig ar allbynnau hanesyddol gweithfa dros gyfnod sylfaen, mae'r meincnod yn werth cyfeirio ar gyfer allyriadau o'u cymharu â'r gweithgarwch cynhyrchu ac mae'n seiliedig ar y cynhyrchwyr mwyaf effeithlon, ac mae'r CLEF yn cynrychioli'r risg o ddadleoli carbon.

Gall dyraniadau am ddim fod yn fwy na'r allyriadau a'r gweithgarwch yn y tymor byr oherwydd sail hanesyddol y dyraniad am ddim a gyfrifir ar gyfer pob gweithfa. Gan fod dyraniadau am ddim ar ei hôl hi o'u cymharu â'r lefelau gweithgarwch, mae cyfraddau'r cymorth yn anwadal a gallant fod yn fwy na 100%. I wella effeithiolrwydd y drefn dyraniadau am ddim fel modd o liniaru'r risg o ddadleoli carbon, un cam y byddai modd ei gymryd yw symud tuag at ddyraniad mwy dynamig sy'n seiliedig ar gynnyrch, fel y'i disgrifir yng nghynnig cyntaf yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim³⁹. Fodd bynnag, o dan y rheolau presennol, nid oes modd inni wneud dyraniadau dynamig, a phe baem yn cyflwyno dull o'r fath, gallai arwain at gynnydd neu ostyngiad yn nyraniadau am ddim gweithfeydd fel cyfran o'u hallyriadau. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn addasu'r dyraniadau am ddim a ddarperir i sectorau CBAM mewn modd a fyddai'n caniatáu i'r CBAM fod yn fwy effeithiol. Felly, nid ydym yn ystyried y byddai newidiadau i lefel y gweithgarwch hanesyddol yn gyfrwng priodol o addasu'r fethodoleg dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM.

Nid yw'r cyfrifiad meincnodi'n ymwneud yn uniongyrchol ag effaith uniongyrchol dadleoli carbon ar gwmni, ond yn hytrach fe'i defnyddir i wobrwyo gweithfeydd mwy effeithlon ac i gymell gweithfeydd eraill o fewn sector i ddatgarboneiddio. Gan nad yw'n ymwneud yn benodol â'r risg o ddadleoli carbon, nid yw ychwaith yn debygol y bydd newidiadau i'r fethodoleg feincnodi yn gyfrwng priodol i addasu'r fethodoleg dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau CBAM.

Felly, yr opsiwn olaf i'w ystyried yw newid yr elfen honno o'r fethodoleg dyraniadau am ddim sy'n ymwneud â bod yn agored i'r risg o ddadleoli carbon. Mewn egwyddor, byddai'n bosibl diwygio Dangosyddion Dadleoli Carbon y sectorau a gwmpesir gan y CBAM i gyfrif am y risg o ddadleoli carbon sy'n weddill na fydd CBAM y DU yn mynd i'r afael â hi, sef y risg o ddadleoli allforion. Drwy gyfrifo dwysedd masnachu ar sail dwysedd allforion yn unig, byddai'n bosibl cyfrifo Dangosydd Dadleoli Carbon sy'n canolbwyntio ar y risg o ddadleoli carbon sy'n gysylltiedig ag allforion.

Un opsiwn posibl y gallai'r Awdurdod ei ystyried fyddai addasu gwerthoedd Dangosyddion Dadleoli Carbon y sectorau a gwmpesir gan y CBAM ac ailgyfrifo'r dyraniadau am ddim o 2027 ar y sail newydd hon, gan weithredu fel trefniant os bydd popeth arall wedi methu.

Er y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r risg o ddadleoli carbon y bydd gweithfeydd sy'n allforio'n helaeth yn dal i'w hwynebu, yn ogystal â'r risgiau posibl o ran rheolau Sefydliad Masnach y Byd, mae risgiau eraill yn gysylltiedig â'r dull hwn o weithredu:

- Ni fyddai dyraniadau am ddim yn cael eu haddasu y tu hwnt i bwynt penodol, a byddai hyn yn peri bod effeithiolrwydd y CBAM bob amser yn gyfyngedig. Gallai hyn wanhau'r

³⁹ <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

signal pris carbon a'r cymhelliad i ddatgarboneiddio yn y sectorau hynny sy'n cael dyraniadau am ddim.

- O barhau i ddarparu dyraniadau am ddim i'r sectorau a gwmpesir gan y CBAM i ystyried y risg o ddadleoli allforion, gallai beri anhawster oddeutu 2030 a thu hwnt pan fydd nifer y lwfansau sydd ar gael o dan y cap a chap y diwydiant yn gyfyngedig iawn, ac ni fyddai ateb hirdymor ar gael i ddatrys y nifer ostyngol o lwfansau a fyddai ar gael wrth inni symud tuag at ETS sero net.
- I gynnal y sicrwydd sydd ei angen ar weithredwyr ETS, byddai hefyd angen inni fynd ati o hyd i gyfrifo dyraniadau am ddim sy'n seiliedig ar ddadleoli allforion ar sail data hanesyddol a phennu'r lefel dros gyfnod. Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r problemau o ran gorddyrannu neu danddyrannu, a byddai'n peri nad yw dyraniadau am ddim yn fesur perffaith o hyd i liniaru'r risg o ddadleoli carbon.

Mae'r Awdurdod yn gofyn i randdeiliaid roi eu barn ynghylch y dull gorau o weithredu o ran hyd a lled yr addasiad i'r dyraniadau am ddim i ddiogelu rhag dadleoli carbon.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i bwysu a mesur dulliau amgen o liniaru'r risg o ddadleoli allforion pan fydd yn mynd ati i lunio ei mesurau dadleoli carbon a datgarboneiddio diwydiannol. Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth iddi fynd ati i ddatblygu dulliau o weithredu yn y maes hwn i sicrhau bod rôl dyraniadau am ddim yn cael ei hystyried.

13. A ydych yn cytuno â'r ystyriaethau y bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw iddynt pan fydd yn pennu hyd a lled yr addasiad i'r dyraniadau am ddim? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.

14. A ydych yn ffafrio addasiad i sero neu i werth nad yw'n sero? Eglurwch eich ateb.

Rhoi'r addasiad ar waith yn dechnegol

Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried sut y gellir rhoi'r addasiad i'r dyraniadau am ddim ar waith. Rydym yn bwriadu ei roi ar waith ar lefel gweithfa, ar ôl cyfrifo'r dyraniadau am ddim rhagarweiniol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwneud addasiadau ar ôl ystyried gweithgarwch hanesyddol perthnasol a pherfformiad ar sail y meincnod ar lefel gweithfa, a chyn ystyried y dyraniadau am ddim cyfanredol mewn perthynas â lefel cap y diwydiant i bennu a oes ffactor cywiro ar draws sectorau (CSCF) wedi'i sbarduno.

Ni fydd dyraniadau am ddim ond yn cael eu haddasu ar gyfer yr is-weithfeydd hynny a gwmpesir gan y CBAM. Yn Atodiad Dadansoddol y ddogfen ymgynghori hon, caiff nwyddau CBAM eu mapio i'r codau nwyddau (SIC) a ddefnyddir ar gyfer dyraniadau am ddim ETS y DU. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sectorau y bydd eu dyraniadau am ddim yn cael eu haddasu.

Sector CBAM	SIC4 / Diwydiant
Alwminiwm	24.42 (Cynhyrchu alwminiwm)
Sment	23.51 (Gweithgynhyrchu sment)
Gwrtaiith	20.15 (Gweithgynhyrchu gwrtaiith a chyfansoddion nitrogen)
Hydrogen	20.11 (Gweithgynhyrchu nwyon diwydiannol)

Haeam a dur	24.10 (Gweithgynhyrchu haeam a dur sylfaenol a ffero-aloeon) 21.20 (Gweithgynhyrchu tiwbiau, pibellau, proffiliau gwag a gosodiadau cysylltiedig, o ddu)
-------------	---

Ffigur 11: Crynodeb o'r sectorau y bydd eu dyraniadau am ddim yn cael eu haddasu os rhoddir ar waith y cynigion a amlinellir yn y bennod hon

I addasu dyraniadau am ddim yr is-weithfeydd y bydd CBAM y DU yn eu cwmpasu, bydd yr Awdurdod yn peri iddi fod yn ofynnol i safleoedd ddadgyfuno'r data a gyflwynir ganddynt i wahanu'r is-weithfeydd y mae'r CBAM yn eu cwmpasu oddi wrth yr is-weithfeydd nad yw'n eu cwmpasu. Rydym yn pwysu a mesur yr opsiynau o ran cyflwyno'r adroddiadau hyn yn y ffordd leiaf beichus o safbwynt gweinyddol ac, ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y gallai'r gofyniad hwn fod yn rhan o ail gam yr ymarfer casglu data sylfaenol, fel rhan o'r broses o gadarnhau ceisiadau i gael dyraniadau am ddim yn 2026⁴⁰. Mae'r Awdurdod yn gofyn i randdeiliaid roi eu barn ynghylch ai hwn yw'r dull mwyaf priodol o ddadgyfuno dyraniadau am ddim ar draws nwyddau CBAM a nwyddau nad ydynt yn rhai CBAM. Yn ddibynnol ar bennu methodoleg briodol i ddadgyfuno'r data hyn, mae'n fwriad gan yr Awdurdod sicrhau mai dim ond dyraniadau am ddim sydd wedi'u mapio i nwyddau CBAM a addasir, gan sicrhau bod y risg o ddadleoli carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau nad ydynt yn rhai CBAM yn parhau i gael ei lliniaru drwy'r drefn dyraniadau am ddim.

- 15. A ydych yn cytuno â'r modd y mae'r Awdurdod wedi mapio codau SIC at nwyddau CBAM? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.**
- 16. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod na ddylid ond addasu dyraniadau am ddim ar gyfer nwyddau a gwmpesir gan CBAM y DU? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.**
- 17. A oes unrhyw ffactorau eraill y byddech yn hoffi i'r Awdurdod eu hystyried o ran sut y dylid dadgyfuno dyraniadau am ddim nwyddau CBAM a nwyddau nad ydynt yn rhai CBAM? Eglurwch sut y byddai modd rhoi'r fethodoleg hon ar waith yn eich tyb chi.**

Meini prawf asesu


I benderfynu'n derfynol ar y fethodoleg i addasu dyraniadau am ddim, mae'r Awdurdod yn ystyried y meini prawf asesu a ganlyn. Ochr yn ochr ag ystyried y meini prawf asesu hyn, bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnal asesiad llawn o effaith y penderfyniadau polisi terfynol cyn cyhoeddi Ymateb yr Awdurdod. Rydym yn gofyn ichi roi eich barn ynghylch sut y dylai'r Awdurdod ystyried y meini prawf asesu hyn, ac yn estyn gwahoddiad ichi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth, yn ogystal â darparu sail resymegol ar gyfer eich ymateb.

- Lliniaru'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer mewnfornion;
- Lliniaru'r risg o ddadleoli carbon ar gyfer allfornion;
- Effaith addasu dyraniadau am ddim ar effeithiolrwydd yr ETS;

⁴⁰ Ceir mwy o wybodaeth am gam cyntaf ac ail gam yr ymarfer casglu data sylfaenol yn Ymateb yr Awdurdod i Symud Ail Gyfnod Dyrannu ETS y DU sydd ar gael yma <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-free-allocation-review>

- Dichonoldeb technegol y fethodoleg i addasu dyraniadau am ddim;
- Fforddiadwyedd y polisi a ddewisir yn derfynol i'r llywodraeth.

Gellir mapio'r tri maen prawf cyntaf yn erbyn ei gilydd, fel y dangosir yn y graff isod. Felly, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn ystyried barn y cyfranogwyr o ran yr hyn y dylid ei flaenoriaethu.



Ffigur 12: Mapio meini prawf asesu'r fethodoleg i addasu dyraniadau am ddim

Fel y disgrifir yn yr adran 'Hyd a lled yr addasiad' uchod, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn unol â rheolau Sefydliad Masnach y Byd⁴¹ a'r rhwymedigaethau ehangach sy'n gysylltiedig â'r gyfraith masnach. Felly, un o'r meini prawf sydd y tu allan i gwmpas y pwysoliadau uchod yw cydymffurfedd â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Rydym yn estyn gwahoddiad i'r ymatebwyr roi eu barn ar sut y byddai modd addasu dyraniadau am ddim o fewn cwmpas rheolau Sefydliad Masnach y Byd.

18. A ydych yn cytuno â'r meini prawf asesu a gynigiwyd i'w hystyried gan yr Awdurdod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb a darparwch feini prawf asesu eraill i'w hystyried.

19. Rhowch y meini prawf asesu mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig.

⁴¹ https://www.wto.org/english/tratop_e/region_e/regrul_e.htm

Ymdrin â dyraniadau am ddim a addaswyd

Mae'n debygol y bydd unrhyw addasiad i ddyraniadau am ddim sectorau CBAM yn arwain at lwfansau nad ydynt wedi'u dyrannu o dan Gap y Diwydiant. Bydd yr Awdurdod yn ystyried sut i ymdrin ag unrhyw lwfansau nad ydynt wedi'u dyrannu pan fydd penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch y cwestiynau a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn.

Y cwestiynau ymgynghori

1. A ydych yn cytuno â'r setiau data a ddefnyddiwyd i gyfrifo dwysedd allyriadau a dwysedd masnachu? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch setiau data amgen.
2. A ydych yn cytuno â'r dulliau wrth gefn a ddefnyddiwyd mewn achosion lle'r oedd bylchau'n weddill yn y setiau data ar gyfer dwysedd masnachu a dwysedd allyriadau? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch ddulliau amgen.
3. A ydych yn cytuno â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddiweddarau gwerthoedd trothwy'r Rhestr Dadleoli Carbon, h.y. 0.14 a 0.74, a bennwyd ar sail Opsiwn A a ddisgrifir uchod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch fethodoleg amgen.
4. A ydych yn cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon?
5. Os nad ydych yn cytuno â rhestr ragarweiniol yr Awdurdod o werthoedd y Dangosydd Dadleoli Carbon, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch unrhyw ddata ychwanegol (sy'n bodloni'r meini prawf asesu). Os nad ydych yn cytuno a'ch bod am gynnig methodoleg neu set ddata amgen nad yw'n bodloni'r meini prawf asesu, eglurwch pam y dylid defnyddio'r data hyn.
6. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod i ddefnyddio dull 'ychwanegol' o ran y Rhestr Dadleoli Carbon os bydd data newydd yn cael eu darparu drwy'r ymgynghoriad hwn sy'n newid gwerthoedd presennol y Dangosydd Dadleoli Carbon? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac awgrymwch ddull amgen.
7. A oes unrhyw ffeithiau neu faterion eraill y byddech yn hoffi i'r Awdurdod eu hystyried cyn penderfynu'n derfynol ar y Rhestr Dadleoli Carbon?
8. Ar sail yr wybodaeth a gyflwynir yn y bennod hon, a ydych yn credu y dylem ddiweddarau'r Rhestr Dadleoli Carbon er mwyn iddi fod yn seiliedig ar ddata'r DU neu a fyddai'n well gennych barhau i ddefnyddio'r Rhestr Dadleoli Carbon bresennol? Eglurwch eich ateb.
9. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod i beidio â rhoi'r opsiwn 'gwneud dim' ar waith? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny.
10. A ydych yn cytuno â pharmedrau'r addasiad fel y'u nodwyd gan yr Awdurdod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac unrhyw barmedrau eraill y dylid eu hystyried.
11. A ydych yn ffafrio unrhyw opsiynau o ran y flwyddyn gychwyn, hyd yr addasiad neu'i drywydd? Eglurwch y rhesymau dros bob opsiwn yr ydych yn ei ffafrio.
12. A ydych yn cytuno â'r sail resymegol a gyflwynwyd i'w hystyried ym mhob un o barmedrau'r addasiad? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch y rhesymau dros hynny ac unrhyw ystyriaethau eraill y dylai'r Awdurdod roi sylw iddynt.

- 13. A ydych yn cytuno â'r ystyriaethau y bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw iddynt pan fydd yn pennu hyd a lled yr addasiad i'r dyraniadau am ddim? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.**
- 14. A ydych yn ffafrio addasiad i sero neu i werth nad yw'n sero? Eglurwch eich ateb.**
- 15. A ydych yn cytuno â'r modd y mae'r Awdurdod wedi mapio codau SIC at nwyddau CBAM? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.**
- 16. A ydych yn cytuno â bwriad yr Awdurdod na ddylid ond addasu dyraniadau am ddim ar gyfer nwyddau a gwmpesir gan CBAM y DU? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb.**
- 17. A oes unrhyw ffactorau eraill y byddech yn hoffi i'r Awdurdod eu hystyried o ran sut y dylid dadgyfuno dyraniadau am ddim nwyddau CBAM a nwyddau nad ydynt yn rhai CBAM? Eglurwch sut y byddai modd rhoi'r fethodoleg hon ar waith yn eich tyb chi.**
- 18. A ydych yn cytuno â'r meini prawf asesu a gynigiwyd i'w hystyried gan yr Awdurdod? Os nad ydych yn cytuno, eglurwch eich ateb a darparwch feini prawf asesu eraill i'w hystyried.**
- 19. Rhowch y meini prawf asesu mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig.**

Y camau nesaf

Mae'r Awdurdod yn bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r penderfyniadau sy'n weddill fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim erbyn diwedd 2025 fan bellaf.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn: www.gov.uk/desnz

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Rhowch wybod inni pa fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu ni os byddwch yn rhoi gwybod inni pa dechnoleg gynorthwyol yr ydych yn ei defnyddio.